# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Ionawr 2025

Amser: 08.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## Hybrid

**Rhag-gyfarfod preifat** (08.45-09.00)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.00-12.15)

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.00)

**2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 - Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

(09.00-10.30) (Tudalennau 1 - 57)

Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Claire Bennett, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd a Cynaliadwyedd Amgylcheddol - Llywodraeth Cymru

Jamie Powell, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid - Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - Craffu ar y gyllideb ddrafft ar Newid Hinsawdd

Papur - Llywodraeth Cymru

**Egwyl** (10.30-10.45)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 - Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

(10.45-12.15) (Tudalennau 58 - 97)

Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Peter McDonald, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd - Llywodraeth Cymru

Alex Walters, Dirprwy Gyfarwyddwr Trafnidiaeth Gyhoeddus ac Integredig - Llywodraeth Cymru

Chris Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi a Strategaeth Trafnidiaeth - Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - Craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer trafnidiaeth

Papur - Llywodraeth Cymru (Saesneg yn unig)

Tystiolaeth ychwanegol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft 2025-26

## 4 Papurau i'w nodi (12.15)

### 4.1 Adfer safleoedd glo brig

(Tudalennau 98 - 111)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i adfer safleoedd glo brig

Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i adfer safleoedd glo brig (Saesneg yn unig)

Llythyr gan y Cadeirydd at Merthyr (South Wales) Ltd mewn perthynas ag ymchwiliad y pwyllgor i adfer safleoedd glo brig

### 4.2 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

(Tudalennau 112 - 113)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

**4.3 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**

(Tudalen 114)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol - 42ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig

**4.4 Deiseb P-06-1478 Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru**

(Tudalennau 115 - 116)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at y Cadeirydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1478 Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru

**4.5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26**

(Tudalennau 117 - 129)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at y Cadeirydd mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft 2025-26 (Saesneg yn unig)

**4.6 Cynllun Masnachu Allyriadau y DU (UKETS) - Fframwaith Cyffredin**

(Tudalennau 130 - 131)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â Chynllun Masnachu Allyriadau y DU

**4.7 Craffu cyffredinol ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth**

(Tudalennau 132 - 135)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru i'r Cadeirydd yn dilyn y sesiwn graffu ar 27 Tachwedd

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru i Drafnidiaeth Cymru yn dilyn y sesiwn graffu ar 27 Tachwedd

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o ddechrau'r cyfarfod ar 23 Ionawr (12.15)

## Cyfarfod preifat (12.15-12.45)

## 6 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2 ac eitem 3

## 7 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)

(Tudalennau 136 - 141)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn cyfreithiol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

08/01/2025

## Cefndir

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwario ar gyfer 2025-26. Mae'r papur hwn yn darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor ar gynigion ar gyfer cyllidebau rhaglenni yn y dyfodol mewn perthynas â'r cyllidebau ym mhortffolio Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd yr Amgylchedd (CCES) ym maes Newid Hinsawdd Prif Grŵp Gwariant (MEG) Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fel y'i hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024.

Mae Atodiad A yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol y Gyllideb Ddrafft ar gyfer maes CCES Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fesul Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL). Adlewyrchir y ffigurau hyn yn y tabl isod.

# Cynnwys

**Dyraniadau Cyllidebol** .......... 3

**Deddfwriaeth** .......... 12

**Yr Amgylchedd** .......... 14

**Newid Hinsawdd** .......... 25

**Cyfoeth Naturiol Cymru** .......... 27

**Atodiad A –Dyraniadau yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)** .......... 29

# Dyraniadau Cyllidebol

## Refeniw

| Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | £'000 Llinell Sylfaen 2025-26 wedi'i hailddatgan | £'000 Symudiadau'r Gyllideb 2025-26 | £'000 Cyllideb Ddrafft 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| 2812 | Deddfwriaeth, Llywodraethiant a Chyfathrebu ym maes yr Amgylchedd | 637 | 1,340 | 1,977 |
| 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 3,970 | 200 | 4,170 |
| 2817 | Diogelu'r Amgylchedd | 6,402 | 320 | 6,722 |
| 3771 | Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd | 3,596 | 200 | 3,796 |
| 2230 | Rheoli Risg Llifogydd a Chyflenwi Polisi Dŵr | 4,225 | -1,244 | 2,981 |
| 2195 | Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 500 | 0 | 500 |
| 2825 | Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 11,444 | 76 | 11,520 |
| 2827 | Coedwigaeth | 6,436 | 0 | 6,436 |
| 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 2,950 | -300 | 2,650 |
| 2837 | Gweithredu Deddf yr Amgylchedd (symud i 2812) | 890 | -890 | 0 |
| 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 124,339 | 19,065 | 143,404 |
| 2454 | Cyfoeth Naturiol Cymru - Incwm o Bren | -33,080 | 0 | -33,080 |
| 2455 | Incwm Ffermydd Gwynt drwy CNC | -10,000 | 0 | -10,000 |
| 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 32,400 | 3,400 | 35,800 |
| 2490 | Tirweddau Dynodedig a Mynediad I Gefn Gwlad | 11,626 | 1,425 | 13,051 |
| 2802 | Amddiffyn Planhigion a Bywyd Gwyllt | 896 | 511 | 1,407 |
| 2803 | Parc Cenedlaethol Newydd | 700 | -700 | 0 |
| 2232 | Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo | 3,836 | 2,000 | 5,836 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2875 | Polisi Morol, Tystiolaeth ac Ariannu | 1,661 | 700 | 2,361 |
| Cyfanswm | | 173,428 | | 199,531 |
| Cyfanswm Cynnydd Refeniw | | | 26,103 | 13% |

## Cyfalaf

| Rhif BEL | Disgrifiad BEL | £'000<br>Cyllideb Derfynol 2024-25 Wedi'i Hailddatgan | £'000<br>Symudiadau'r Gyllideb 2025-26 | £'000<br>2025-26 Cyllideb Ddrafft |
|---|---|---|---|---|
| 2232 | Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr | 10,300 | 27,917 | 38,217 |
| 2230 | Rheoli Risg Llifogydd a Chyflenwi Polisi Dŵr | 27,000 | 3,021 | 30,021 |
| 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 25,106 | 2,700 | 27,806 |
| 2817 | Diogelu'r Amgylchedd | 300 | 2,386 | 2,686 |
| 2490 | Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad | 8,900 | 0 | 8,900 |
| 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 12,000 | 0 | 12,000 |
| 2820 | Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 19,790 | -7,226 | 12,564 |
| 2825 | Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 12,500 | 0 | 12,500 |
| 2827 | Coedwigaeth | 9,310 | 0 | 9,310 |
| 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 46,853 | -5,000 | 41,853 |
| Cyfanswm | | 172,069 | | 195,857 |
| Cyfanswm Cynnydd | | | 23,798 | 14% |

## Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

| Rhif | Disgrifiad BEL | £'000 | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|

| BEL | | Cyllideb Derfynol 2024-25 wedi'i Hailddatgan | Symudiadau'r Gyllideb 2025-26 | Cyllideb Ddrafft 2025-26 |
|---|---|---|---|---|
| 2809 | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 0 | 10,000 | 10,000 |
| **Cyfanswm** | | **0** | **10,000** | **10,000** |

## Blaenoriaethau'r Gyllideb

1.) Fy nod yw sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r gyllideb yn caniatáu i mi fwrw ymlaen â chamau gweithredu ar y blaenoriaethau canlynol:

- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd i adeiladu dyfodol tecach a mwy diogel a sicrhau swyddi gwyrdd.
- Gweithredu i ddiogelu ac adfer natur yng Nghymru ac i gysylltu pobl â'r byd naturiol.
- Creu dyfodol cynaliadwy i fwyd, pysgodfeydd a ffermio yng Nghymru.
- Gwella iechyd a lles ein cymunedau drwy dorri gwastraff a llygredd, a defnyddio rheoleiddio i ysgogi arloesedd, creu marchnadoedd a chadw pobl yn ddiogel.
- Gwella iechyd a lles anifeiliaid.

2.) Mae mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn flaenoriaeth ar draws y Cabinet. Yn fy mhortffolio fy hun, rwy'n parhau i ariannu'r capasiti canolog sydd ei angen i alluogi Llywodraeth Cymru gyfan i ddatblygu a chyflawni ein cyllidebau carbon. Mae hyn yn rhan annatod o'r broses o gyflawni ein dull gweithredu cyffredinol o ran ein gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

3.) Rwyf yn parhau i ariannu Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru hefyd sy'n darparu cyngor a chymorth hanfodol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt weithio tuag at ein huchelgais cyffredin o sector cyhoeddus sero net i Gymru erbyn 2030. Mae'r Economi Gylchol wedi derbyn cyllid adnoddau ychwanegol i barhau i adeiladu ar berfformiad Cymru ar ailgylchu, sydd gyda'r gorau yn y byd, ac i wireddu'r cyfleoedd economaidd sy'n deillio o ddefnyddio adnoddau

a deunyddiau am gyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff. Mae'r gostyngiad mewn cyfalaf yn adlewyrchu proffil prosiectau Awdurdodau Lleol yn 2025/26.

4.) Rwy'n parhau i fuddsoddi mewn diogelu'r amgylchedd, gan leihau effaith peryglon amgylcheddol ar iechyd a lles. Mae hyn yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn buddsoddiad i ddiogelu tomenni glo, cynnydd mewn cyllid i wella ansawdd dŵr, buddsoddiad parhaus mewn rheoli perygl llifogydd a chyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod llygredd yn cael ei reoleiddio'n effeithiol.

5.) Mae buddsoddi mewn adfer natur, mynediad i gefn gwlad, mannau gwyrdd ac ymgysylltu cymunedol â natur yn parhau trwy ein rhaglenni Rhwydweithiau Natur a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a chymorth buddsoddi i lwybr Arfordir Cymru a gwaith mynediad arall.

6.) Bydd Diogelwch Tomenni Glo yn gweld cynnydd sylweddol mewn cyllid gan adlewyrchu'r flaenoriaeth y mae'r Llywodraeth hon wedi'i rhoi ar sicrhau diogelwch ein cymunedau.

7.) Bydd y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo, a sefydlwyd yn 2020-21 mewn ymateb i'r llithriad tomen yn Tylorstown yn 2020, digwyddiad a gafodd sylw helaeth, yn parhau gyda chyllid ychwanegol sylweddol. Mae'r cynllun grant yn sicrhau bod cyllid ar gael i Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i gwblhau gweithgareddau cynnal a chadw ar domenni glo sy'n eiddo cyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau mewn cyflwr lle mae bygythiad o lithriad yn cael ei reoli a'i leihau. Mae enghreifftiau proffil uchel o ble defnyddiwyd y gyllideb flaenorol yn cynnwys gwaith adfer yn Tylorstown, a Dyffryn Rhondda.

8.) Er mwyn parhau â gwaith yn y maes hwn a'i ehangu, mae'r cynllun ar gyfer 2025/26 wedi cynyddu £12m yn ychwanegol at y £36m a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU fel rhan o gyllideb yr hydref. Bydd hyn yn dod â chyfanswm ein buddsoddiad mewn diogelwch tomenni glo i £102m yn nhymor y Senedd hon.

9.) Yn ail, mae'r gyllideb yn cydnabod y costau gweithredu sy'n codi o'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) sy'n cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2024. Mae dyraniadau cyllidebol wedi'u gwneud mewn perthynas â chostau sefydlu corff newydd, fel yr amlinellir hefyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae cyllid wedi'i gynnwys hefyd ar gyfer parhad gwaith yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo gynt) yn ymwneud â'r gyfundrefn arolygu.

10.) Mae diogelwch cronfeydd dŵr yn hanfodol bwysig hefyd o ystyried y risgiau os nad oes gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud arnynt a'r rhagolygon ar gyfer newidiadau i'r hinsawdd yng Nghymru yn y dyfodol. Adlewyrchwyd hyn yn nyraniadau'r gyllideb gyda £4.9m ar gael ar gyfer diogelwch cronfeydd dŵr. Mae hyn yn cydnabod dyletswyddau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer ystadau CNC ac ar gyfer cronfeydd dŵr amddifad.

11.) Rwyf wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer partneriaid cyflawni, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharciau Cenedlaethol, gan gydnabod eu rôl hanfodol a'r pwysau ariannol y maent yn ei wynebu. Rwyf wedi cynyddu cyllid cyfalaf ar gyfer ansawdd dŵr hefyd, gan gydnabod yr angen i wneud mwy o gynnydd.

12.) Mae'r gostyngiad yn y cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn adlewyrchu arwyddocâd y pwysau mewn mannau eraill, gan gynnwys ar gyfer ansawdd dŵr a diogelwch cronfeydd dŵr, ond mae gwerth y rhaglen wedi'i gydnabod drwy gynnal lefel sylweddol o fuddsoddiad.

## Ymrwymiadau blaenorol o graffu ar gyllideb 2024/25

13.) Rwyf wedi ystyried yr ymrwymiadau a wnaeth Llywodraeth Cymru mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â chyllideb 2024-25 wrth gynnig y dyraniadau hyn. Rwyf wedi crynhoi'r dull, sydd wedi'i grwpio o dan y penawdau yn adroddiad y Pwyllgor.

## Bioamrywiaeth

14.) Rwyf wedi ystyried yn ofalus iawn y potensial i ehangu cwmpas y rhaglen Rhwydweithiau Natur yn unol â'r uchelgais y gwn y mae'r Pwyllgor yn ei rannu â mi. At ei gilydd, deuthum i'r casgliad nad oedd digon o hyblygrwydd ar draws elfennau eraill y gyllideb i ehangu'r rhaglen ymhellach y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, bydd y buddsoddiad ychwanegol mewn ansawdd dŵr a nifer o'r cynlluniau, gan gynnwys y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS) a Chynllun Cynefin Cymru sy'n rhan o gyfnod Paratoadol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn cyfrannu at ganlyniadau bioamrywiaeth cadarnhaol. Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar egwyddorion ar gyfer cyllid gwyrdd cynaliadwy a moesegol ac mae nifer o gynigion uchelgeisiol ar gyfer adfer natur yn dod i'r amlwg.

## Morol

15.) Yn 24/25 rwyf wedi parhau i sicrhau bod cyllid ar draws Rhaglenni Morol yn cael ei flaenoriaethu sy'n cynnwys cyllid ar gyfer prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Rwyf wedi darparu cyllid i Gyfoeth Naturiol Cymru i gynnal 60 yn rhagor o asesiadau.

16.) Mae cyllid i gefnogi'r gwaith o adfer morwellt ar gael drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur a'r Cynllun Grant ar gyfer Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r rhaglen dynodi Parthau Cadwraeth Forol. Rwyf wedi dyrannu cyllideb i gynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r safleoedd arfaethedig, a fydd yn dechrau ym mis Ionawr 2025.

17.) Yn ogystal, er gwaethaf gostyngiadau yn y gyllideb yn 24-25, rydym wedi cyflawni'r Fframwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac yn parhau i ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol yn ogystal â chomisiynu adolygiad annibynnol o'r Cynllun Morol Cenedlaethol. Rwyf wedi dyrannu arian i Marine Fund Cymru hefyd.

## Gwastraff

18.) Ym mis Ebrill 2025 byddwn yn gweld y flwyddyn gyntaf o daliadau i Awdurdodau Lleol o dan y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) ar gyfer pecynwaith, sef cynllun rydym wedi'i ddatblygu ar y cyd fel pedair gwlad. Bwriad Llywodraeth Cymru yw bod y cyllid o'r cynllun EPR ar gyfer pecynwaith sy'n mynd tuag at dalu costau rheoli gwastraff pecynwaith yn ychwanegol at y cyllid y mae Awdurdodau Lleol wedi'i dderbyn yn flaenorol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol, yn amodol ar y Senedd yn cytuno i'r gyllideb. Mae hyn yn golygu, yn hytrach na chynnal cyllid grant, bydd yn datgloi buddsoddiad ychwanegol i wella ailgylchu yn erbyn yr isafswm targed statudol o 70% ac yn cefnogi gweithredu ehangach fel rhan allweddol o'r camau i ddatgarboneiddio a thyfu'r economi werdd.

19.) Mae cyllid cyfalaf wedi gostwng ychydig eleni, gan adlewyrchu proffil prosiectau sydd ar y gweill, ond rhagwelir y bydd y galw am gyllid yn cynyddu o 2026/27 ymlaen.

20.) Mae Cynllun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn parhau i weithredu ac yn agored i geisiadau ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad blynyddol diweddaraf sy'n nodi effaith y Cynllun ar gael yn:

**CGGC-Cynllun-Cymunedau-y-Dreth-Gwarediadau-Tirlenwi-Adroddiad-blynyddol-23-24.pdf**

## Cyfoeth Naturiol Cymru

21.) Mae sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn arian cymesur i gyflawni ei rôl yn effeithiol wedi bod yn flaenoriaeth wrth bennu'r gyllideb hon. Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghoriad ffurfiol gyda'i Undebau Llafur cydnabyddedig a bu'n ymgysylltu â'i staff mewn perthynas â'i 'Achos dros Newid' arfaethedig. Bwriad yr Achos dros Newid yw cefnogi gwaith o ail-lunio'r sefydliad fel y gall weithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Bydd y gyllideb ddrafft yn rhoi sail i gam nesaf datblygiad y sefydliad a llwyfan ar gyfer trawsnewid mewn meysydd allweddol fel rheoleiddio a gorfodi. Ar gyfer 2024-25, rydym wedi gweithredu trefniant i rannu'r risg incwm o bren gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd y trefniadau hyn yn parhau ar gyfer 2025-26.

## Llifogydd a Dŵr

22.) Rwy'n falch fy mod wedi gallu dyrannu £2m ar gyfer Rheoli Llifogydd yn Naturiol yn dilyn y rhaglen sbarduno gychwynnol. Rwyf wedi cynnal y lefelau uchaf erioed o gyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd ar gyfer Awdurdodau Rheoli Perygl, ar ôl symud cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru i'r un BEL â Chymorth Grant ehangach.

23.) Rwyf wedi dyrannu £3m o gyfalaf ychwanegol ar gyfer gweithredu ar ansawdd dŵr gan gydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi ansawdd dŵr gwael. Mae hyn yn dod â'n buddsoddiad i £18.021m. Bydd hyn yn golygu y gellir parhau â'r rhaglen amlsafle, amlflwyddyn o ymyriadau a gyflwynir ar draws dalgylchoedd â chyfleoedd, prosiectau ar raddfa genedlaethol, adfer afonydd ac ardaloedd gwarchodedig gan gynnwys afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).

## Llywodraethu Amgylcheddol

24.) Rwyf wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru i ddarparu ar gyfer penodi’r Dirprwy Asesydd Interim ychwanegol. Rwyf wedi gwneud darpariaeth hefyd i gychwyn datblygu cynigion ar gyfer Corff Llywodraethu Amgylcheddol.

## Penderfyniadau Polisi Llywodraeth y DU

25.) Mae cydnabyddiaeth Llywodraeth y DU o'r achos dros fuddsoddi mewn diogelwch tomenni glo wedi galluogi cynnydd sylweddol mewn cyllid.

26.) Mae llywodraeth y DU wedi cadarnhau eu bod wedi dyrannu £25m (£23m cyfalaf, £2m refeniw) ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 mewn perthynas â diogelwch tomenni glo. Bydd hyn yn dod â chyfanswm ein buddsoddiad mewn diogelwch tomenni glo i £102m yn nhymor y Senedd hon.

27.) Bydd y gyllideb ddrafft yn golygu y gellir ehangu rhaglenni a ariennir, gan ddarparu cyllid grant i Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cwblhau gweithgareddau cynnal a chadw ar domenni glo sy'n eiddo cyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau i fod mewn cyflwr lle mae'r bygythiad o lithriad yn cael ei reoli a'i leihau.

28.) Y prif ffocws yw sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn ddiogel a darparu cyfundrefn reoleiddio fodern sy'n addas i'r diben. Unwaith y bydd Bil newydd wedi'i weithredu, bydd yn bwysig canolbwyntio ar ddatblygu capasiti a gallu o ran adnoddau (sy'n ffactor cyfyngu wrth gyflwyno strategaeth adfer hirdymor), yn ogystal â datblygu dull strategol manylach o ymdrin ag etifeddiaeth mwyngloddio a diwydiant yng Nghymru.

29.) Mae Llywodraeth Cymru a Defra wedi cytuno i gydweithio i ystyried diwygiadau rheoleiddiol i'r rhaglen diogelwch cronfeydd dŵr.

## Mynd i'r afael â'r Argyfwng Natur

30.) Mae'r Cynllun Gwella'r Gyllideb yn cynnwys agenda atal sy'n cael ei llunio gan waith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG). Mae is-grŵp sy'n gweithio gyda BIIAG yn y camau cynnar o ymgorfforі 'atal' – osgoi effeithiau anfwriadol niweidiol - yn y broses o osod cyllidebau. Mae'r is-grŵp yn defnyddio bioamrywiaeth fel maes i dreialu syniadau fel datblygu pecyn cymorth a darparu cyngor i lunwyr polisi a Thrysorlys Cymru, yn seiliedig ar ganfyddiadau o adolygiad Dasgupta ac mae'n disgwyl adrodd ar gynnydd yn 2025.

31.) Yn amodol ar ganfyddiadau'r peilot hwn, byddwn yn archwilio dull cyllideb gyfan ar gyfer gweithgarwch ataliol. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi ein huchelgais i brif ffrydio'r gwaith o ddarparu gwytnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau ar draws y sefydliad a'n partneriaid.

32.) Mae swyddogion o'r Trysorlys, Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth yn rhan o brosiect Cyllidebau'r Genhedlaeth Nesaf. Mae hwn yn brosiect 21 mis, a ddaw i

ben ym mis Chwefror 2026. Mae'n cael ei redeg gan y 'Grŵp Hinsawdd' sy'n hyfforddi ac yn cefnogi llywodraethau datganoledig i ddylunio 'cyllidebau gwyrdd y genhedlaeth nesaf'. Nod y prosiect yw alinio cyllidebau cyhoeddus â nodau niwtraliaeth hinsawdd a helpu i ddatgloi cyllid, adeiladu ar hyfforddiant technegol ac arferion gorau rhyngwladol a chael eu llywio ganddynt.

# Deddfwriaeth

## Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

33.) Bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth a datblygu deunyddiau cyfathrebu i gefnogi dechrau'r gwaharddiadau ar y cynhyrchion sy'n weddill, h.y. bagiau siopa plastig, cynhyrchion wedi'u gwneud o blastig ocso-ddiraddadwy a chaeadau polystyren ar gyfer cwpanau a chynwysyddion bwyd; fel y'u rhestrir yn Nhabl 1, Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.

## Cyflwyno Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle

34.) Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu'r ddeddfwriaeth ar gyfer cynllun cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith (EPR) a'r cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cynwysyddion diod (DRS). Mae'r diwygiadau EPR yn cael eu datblygu ar draws y DU, gyda mewnbwn helaeth gan Lywodraeth Cymru o ran polisi a gwasanaethau cyfreithiol. Bydd y rheoliadau DRS yn cael eu gwneud ar sail Cymru yn unig.

## Y Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) arfaethedig;

35.) Mae'r gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2025-26 yn cynnwys £0.4m tuag at wariant gweithredu er mwyn sicrhau y gall gwaith barhau i baratoi ar gyfer cwblhau'r Bil.

36.) Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd wedi'i gwblhau. Mae hyn yn darparu costau manwl ar gyfer sefydlu'r Awdurdod, gan gynnwys costau staffio, yn ogystal â'r costau rhedeg unwaith y bydd yr Awdurdod yn mynd yn fyw, ar 1 Ebrill 2027.

## Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024

37.) Bydd angen i ni wneud penderfyniadau pwysig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch maint ac amseriad gweithredu, gan gydymffurfio â'r terfynau amser a nodir yn y Ddeddf, rhywfaint o'r is-ddeddfwriaeth a llunio’r rheoliadau

cysylltiedig. Mae cyllid penodol yn cefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf sy'n cynnwys grant Rheoli Ansawdd Aer Lleol blynyddol o £1 miliwn i gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni gwelliannau yn lleol i ansawdd aer. Bydd y cyllid hwn yn golygu y gellir cyflwyno camau gweithredu'r cynllun sy'n cwmpasu newid ymddygiadol cyhoeddus ac ymgysylltu â'r cyhoedd gyda'r nod o fynd i'r afael â segura a llosgi domestig.

## Bil ar Lywodraethu Amgylcheddol a Thargedau Bioamrywiaeth

38.) Roedd y Papur Gwyn a'r asesiad effaith rheoleiddiol drafft yr ymgynghorwyd arnynt yn gynnar yn 2024 yn darparu amcangyfrif cychwynnol o gostau a oedd yn cynnwys sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth statudol newydd ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus ehangach. Gan adlewyrchu allbynnau'r ymgynghoriad, mae costau manylach yn cael eu datblygu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cefnogi'r broses o gyflwyno'r Bil yn 2025. Mae'r costau ar gyfer 2025/26 yn gyfyngedig.

# Yr Amgylchedd

## Cyflawni'r Archwiliad Manwl Bioamrywiaeth.

39.) Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i osod targedau bioamrywiaeth yng Nghymru mewn cyfraith er mwyn ysgogi ein camau gweithredu yn y dyfodol. Dyrannwyd cyllid i gefnogi datblygiad technegol y targedau hyn.

40.) Arweiniodd yr Archwiliad Manwl Bioamrywiaeth at amrywiaeth o argymhellion gyda'r nod o hybu camau gweithredu ar y cyd y gallwn eu cymryd ar unwaith i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r nod '30 erbyn 30' mewn modd ystyrlon, yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfwng natur. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r argymhellion a'r camau gweithredu. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad parhaus yn ein Rhwydweithiau Natur a Rhaglenni Gweithredu Cenedlaethol ar Fawndiroedd, cefnogi rhaglenni peilot braenaru sy'n archwilio'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddi cynaliadwy ac adolygiad annibynnol o gynllunio morol i gefnogi rhagor o bolisïau gofodol.

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur

41.) Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i gyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP - https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur) sy'n ymwneud â diogelu ein cynefinoedd a'n rhywogaethau sydd o’r pwys mwyaf a chreu rhwydweithiau ecolegol gwydn. Mae'r cynllun hwn yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd i gyd-fynd â'r targedau a'r nodau a nodir yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd yn ogystal â diffinio'r camau sydd eu hangen i gyflawni ein targedau statudol domestig arfaethedig.

42.) Bydd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn elwa ar gyllid wrth i ni barhau i ddarparu ein Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn 2025/26 gan helpu i gyflawni ein nod o 30 erbyn 30. Mae'n allweddol i wella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd gwarchodedig daearol a morol, gan greu rhwydweithiau ecolegol gwydn a fydd yn caniatáu i'n cynefinoedd a'n rhywogaethau sy’n wynebu’r perygl mwyaf i ffynnu. Bydd yn helpu i gyflwyno natur i ble bynnag mae pobl yn byw hefyd drwy ymgysylltu â chymunedau lleol. Mae hyn o fudd nid yn unig i'n hamgylchedd ond i'n hiechyd a'n lles hefyd. Bydd monitro a gwerthuso cadarn yn rhan annatod o'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur.

43.) Bydd targedau bioamrywiaeth sy'n rhwymo mewn cyfraith yn cael eu datblygu os bydd Bil yr Amgylchedd (Llywodraethu, Egwyddorion a Thargedau Bioamrywiaeth) yn cael ei basio gan y Senedd. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gyd-fynd â'r Bil. Bydd yn darparu amcangyfrif cychwynnol o gostau ar gyfer y targedau statudol newydd. Nid ydym yn disgwyl effaith ariannol lawn y targedau hyn tan ar ôl i'r Bil gael ei basio gan y Senedd, felly blwyddyn ariannol 2026-27 yn ôl pob tebyg.

## Rhaglen Rhwydweithiau Natur

44.) Bydd y dyraniad hwn yn golygu y gellir parhau i gyflawni'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, gan weithio gyda thirfeddianwyr, partneriaid, rhanddeiliaid ac annog ymgysylltu â'r gymuned i weithredu mesurau sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng natur ac sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i amgylchedd Cymru.

## Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

45.) Fe wnaeth y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur barhau i lwyddo o ran cyflawni ym mlwyddyn 2023/24 gyda rhai uchafbwyntiau wedi'u crynhoi isod. Cyfanswm gwariant y rhaglen y llynedd oedd £15.3m.

46.) Tabl 1 – Prif Allbynnau'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur 2020-2024.

| Prif Allbwn | Cyfansymiau 2020/21 - 2023/24 |
|---|---|
| Mannau gwyrdd wedi'u creu neu eu gwella'n sylweddol | 4,076 |
| Dolydd ac ymylon ffordd bywyd gwyllt gydag arferion torri gwair newydd | 1,176 |
| Perllannau cymunedol wedi'u creu | 677 |
| Prosiectau tyfu cymunedol | 793 |
| Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan | 15,188 |
| Coed wedi'u plannu (coetir trefol, trwchus bach, ymylon, parcdir) | 300 hectar wedi'u hadrodd |

47.) Mae pob un o fesurau targed y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 'creu Mannau Gwyrdd' wedi cael eu cyflawni gan Leoedd Lleol ar gyfer Natur yn unig, gyda

llawer yn cael eu rhagori arnynt erbyn diwedd y flwyddyn hon. Mae'r rhaglen hon wedi cynyddu mynediad cymunedol a chysylltiad â natur. O arwyddocâd arbennig i fioamrywiaeth, mae'r rhaglen wedi ariannu newidiadau Cymru gyfan i arferion torri gwair mewn mannau gwyrdd cyhoeddus ac ar ymylon ffordd. Mae'r newid ymddygiad hwn bellach yn arfer safonol, gyda'r flwyddyn hon yn arwyddocaol yng nghanfyddiadau'r cyhoedd o fannau trefol gwyrdd â ffocws ar natur.

48.) Rwy'n hyderus y bydd y gyllideb a ddyrannwyd ochr yn ochr â'r cyllid ychwanegol a ddarperir drwy'r cyllidebau Bioamrywiaeth sy'n cefnogi Dyletswyddau Bioamrywiaeth y Bartneriaeth Natur Leol yn benodol yn sicrhau bod y capasiti cyflawni ar draws cynlluniau'r rhaglen yn cael ei gadw.

49.) Mae'r gostyngiad yn y cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn 2026/25 (£300k o gyllid refeniw a £7.3M o gyllid cyfalaf) yn adlewyrchu arwyddocâd y pwysau mewn mannau eraill, gan gynnwys ar gyfer ansawdd dŵr a diogelwch cronfeydd dŵr. Er gwaethaf yr angen i wneud gostyngiadau yn y maes hwn, mae gwerth y rhaglen wedi'i gydnabod trwy ddarparu lefel sylweddol o fuddsoddiad parhaus yn 2025/26, gan gadw dyraniad o £12 miliwn o gyllid cyfalaf a £2.5 miliwn a mwy o gyllid refeniw. Bydd y lefel hon o gyllid yn ein galluogi i barhau â gwaith cadarnhaol y rhaglen a chefnogi'r Partneriaethau Natur Lleol, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut y gall y gwaith hwn gefnogi nifer o ymrwymiadau'n Rhaglen Lywodraethu. Bydd natur hyblyg y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur hefyd yn ein galluogi i gefnogi darpariaeth ychwanegol pe bai cyllid ychwanegol ar gael yn ystod y flwyddyn.

## Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

50.) Ar hyn o bryd, mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn ei phumed blwyddyn o gyflawni. Wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2020, mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn cael ei chyflwyno gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd gan y rhaglen bum mlynedd gychwynnol darged i adfer 3,000 hectar o fawndir erbyn Mehefin 2025. Mae'r targed wedi'i gyrraedd 12 mis yn gynnar gyda 4,000ha arall yn elwa ar waith rheoli a chynnal a chadw cynefinoedd. Mae'r gwaith adfer wedi diogelu 1.6 miliwn a mwy tunnell o garbon wedi'i storio, gan arwain at ostyngiad blynyddol amcangyfrifedig o 8,000 tunnell mewn allyriadau.

51.) Mae'r cyllid yn cynnal y gwaith presennol o adfer tua 600ha y flwyddyn gan gyfrannu at y targedau sero net a 30 erbyn 30 ar gyfer mawndiroedd.

52.) Bydd Map Mawndiroedd Cymru a Phorth Mawndiroedd Cymru yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r lefel sylweddol o ddata mawndiroedd a gasglwyd ers i'r rhaglen ddechrau. Bydd Porth Mawndiroedd Cymru yn parhau i gael ei ddiweddaru'n flynyddol gyda'r holl weithgarwch adfer a rheoli cynefinoedd a ariennir drwy'r rhaglen.

## Natur am Byth

53.) Dyrennir cyllid i barhau i ddarparu'r arian cyfatebol sy'n ofynnol i gyflawni'r prosiect pedair blynedd hwn a arweinir gan CNC. Nod y prosiect, sydd ar hyn o bryd yn ei ail flwyddyn, yw mynd i'r afael â dirywiad y rhywogaethau sydd o dan y bygythiad mwyaf yng Nghymru gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

## Rhaglenni monitro ar gyfer bioamrywiaeth.

54.) Mae monitro a thystiolaeth effeithiol a fforddiadwy yn hanfodol ar gyfer olrhain ein cynnydd tuag at y targed 30 erbyn 30 a'n huchelgais mwy hirdymor o fod yn bositif dros natur.

55.) Ymgymerir ag amryw o raglenni monitro bioamrywiaeth gyda chymorth uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, neu ar ei rhan, fel bod modd adrodd ar statws bioamrywiaeth yng Nghymru e.e. drwy Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR) a baratoir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae disgwyl yr adroddiad nesaf ym mis Rhagfyr 2026. Mae elfennau allweddol o'n fframwaith presennol ar gyfer monitro bioamrywiaeth yn cynnwys Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP), system Arsylwi'r Ddaear Cymru Fyw, monitro rhywogaethau dangosol allweddol trwy raglenni gwyliadwriaeth Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)/gwyddor dinasyddion, a Monitro Safonau Cyffredin a ddarperir gan CNC ar gyfer safleoedd gwarchodedig.

56.) O ran y targed 30 erbyn 30, mae'r grŵp arbenigol Monitro a Thystiolaeth wedi llunio adroddiad cynhwysfawr sy'n argymell fframwaith monitro a thystiolaeth lefel uchel. Bydd ffocws ein camau nesaf ar gasglu a chydgrynhoi ymdrech ac adnoddau monitro yng Nghymru er mwyn sicrhau bod data'n cael ei ddal, ei brosesu a'i ddadansoddi'n effeithlon yn erbyn y fframwaith y mae'r grŵp Monitro a Thystiolaeth wedi'i gynhyrchu. Fel rhan o hyn, cynhelir gwerthusiad o swyddogaethau'r Canolfannau Cofnodion yr Amgylchedd Lleol ynghyd â gwerthusiad o'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur.

## Cymorth ar gyfer sgiliau gwyrdd gan gynnwys Gwasanaeth Natur Cymru.

57.) Mae ysgogi swyddi gwyrdd sy'n sicrhau twf economaidd ac yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur yn flaenoriaeth i'r Cabinet yn ei gyfanrwydd.

58.) Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net ym mis Chwefror 2023 a'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar fapiau ffyrdd sector ym mis Mehefin 2024.

59.) Rydym yn chwilio am gyfleoedd hefyd i hybu llwybrau datblygu sgiliau a hyfforddiant drwy ein buddsoddiad, er enghraifft wrth i ni gynyddu'n sylweddol y buddsoddiad mewn diogelwch tomenni glo a dechrau cynllunio ar gyfer sefydlu corff goruchwylio newydd.

60.) Mae'r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol (NNS) yn cael ei arwain gan bartneriaid trydydd sector ac mae wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid i Sefydliad Esmée Fairbairn ac wedi penodi swyddog yn sgil hynny a fydd yn gweithio yn y Comisiwn Ffermio i fwrw ymlaen â'r gwaith. Dylai hyn olygu y gellir datblygu ymhellach fodel gweithredu, strwythurau llywodraethu a model ariannu.

## Datblygu dull buddsoddi preifat ar gyfer y byd natur.

61.) Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu dull newydd o ymdrin â chyllid cynaliadwy ar gyfer adfer natur. Bwriad y dull hwn yw cynyddu ac amrywio'r cyllid sydd ar gael fel y gallwn fynd i'r afael yn effeithiol â'r argyfwng natur a'r pwysau sy'n arwain at golli bioamrywiaeth - gan gynnwys newid hinsawdd, llygredd, a rheolaeth anghynaliadwy ar adnoddau naturiol.

62.) Mae gan farchnadoedd ar gyfer natur, a'r gwasanaethau amgylcheddol y mae natur yn eu darparu, y potensial i harneisio galluogrwydd ac adnoddau'r sector preifat i ddefnyddio cyfalaf yn effeithlon ac annog yr arloesedd sydd ei angen. Ond mae'n rhaid i farchnadoedd amgylcheddol gael eu cynllunio'n dda a'u llywodraethu'n dda er mwyn atal 'gwyrddgalchu' a sicrhau eu bod yn dangos lefel uchel o uniondeb, yn cyflawni gwelliant amgylcheddol go iawn ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol ac o fudd iddynt.

63.) Ar 10 Medi 2024 lansiwyd ymgynghoriad ar Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy. Datblygwyd yr egwyddorion hyn ar y cyd â rhanddeiliaid

allweddol ac maent yn canolbwyntio ar lefel uchel o uniondeb. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i lunio'r camau nesaf wrth gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer adfer natur a fydd yn gofyn am lefel sylweddol uwch o gyllid.

## Bioddiogelwch, gan gynnwys Ffliw Adar.

64.) Rydym yn parhau i reoli plâu a chlefydau planhigion presennol ac yn gweithio i liniaru risgiau newydd, gan gynnwys ar ffin y DU ar gyfer porthladdoedd Cymru. Mae'r adnodd ar gyfer y gwaith hwn wedi cynyddu i adlewyrchu'r gwaith polisi a rheoleiddio a ddatganolwyd i Gymru ar gyfer bioddiogelwch, gan gynnwys mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol a rheoleiddio plaladdwyr a bioladdwyr.

65.) Rydym wedi cryfhau ein gallu o ran mynd i'r afael â materion iechyd anifeiliaid gwyllt lle maent yn effeithio ar rywogaethau o arwyddocâd bioamrywiaeth yn dilyn brigiad o achosion o Ffliw Adar Pathogenedd Uchel mewn adar môr. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull mwy strategol o ymdrin â chlefydau anifeiliaid gwyllt yn ogystal â chryfhau ein dull Iechyd Cyfunol cyffredinol.

## Cefnogaeth i gyflawni strategaeth yr economi gylchol, Mwy nag Ailgylchu, gan gynnwys datblygu a chyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynllun Dychwelyd Ernes i Gymru

66.) Bydd y cyllid yn golygu y gellir parhau i weithredu strategaeth yr economi gylchol, sydd eisoes wedi gweld Cymru'n gwella ei lefel ailgylchu ymhellach a dringo i'r ail safle yn y byd. Mae hyn yn cynnwys Cronfa'r Economi Gylchol sy'n cefnogi ein Hawdurdodau Lleol i ddatgarboneiddio gwasanaethau, cyflwyno cyfleusterau ailddefnyddio ac atgyweirio a gwella ailgylchu, sydd yn ei dro yn darparu deunyddiau o ansawdd uchel yn ôl i'r economi gan ddatgloi cyfleoedd pellach ar gyfer swyddi gwyrdd a thwf gwyrdd. Mae Cronfa'r Economi Gylchol yn darparu cyllid i gefnogi busnesau i addasu eu prosesau hefyd i, er enghraifft, ddefnyddio deunydd wedi'i ailgylchu, gan roi cyfle i fusnesau wella effeithlonrwydd o ran adnoddau, gwytnwch a chystadleurwydd mewn economi datgarboneiddio. Mae hefyd yn cynnwys gweithredu'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynwaith a datblygu'r Cynllun Dychwelyd Ernes i Gymru. Bydd y cyllid yn golygu y bydd ein partneriaid cyflawni yn gallu parhau â'r gwaith i gefnogi Awdurdodau

Lleol i wella eu gwasanaethau, mynd i'r afael â throseddau gwastraff ac adeiladu'r capasiti sydd ei angen i reoleiddio diwygiadau allweddol a pharhau i wneud cynnydd mewn meysydd fel lleihau gwastraff bwyd.

## Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys diweddaru a chyflawni fframwaith rheoli rhwydwaith a chynllun gweithredu Ardaloedd Morol Gwarchodedig

67.) Dyrennir cyllideb ar gyfer ariannu prosiectau llwyddiannus a ddyfernir yn ystod yr alwad arfaethedig am weithredu, gan gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a nodir yn y fframwaith rheoli rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer Cymru. Disgwylir i ddyraniadau gyfateb i ddyfarniadau blynyddoedd blaenorol a disgwylir iddynt ddod o'r cyllidebau Ecosystemau Morol a Bioamrywiaeth pan fyddant wedi'u cwblhau. Ar ben hynny, mae disgwyl i'r gyllideb gael ei dyrannu ar gyfer camau gweithredu sy'n deillio o gyhoeddi Strategaeth Warchod Adar Môr i Gymru y flwyddyn nesaf.

## Asesu a nodi bylchau yn y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gan gynnwys gwelliannau i'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r broses o ddynodi Parthau Cadwraeth Morol pellach yn nyfroedd Cymru.

68.) Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w rhaglen cwblhau rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig; mae'r dynodiadau Parth Cadwraeth Morol arfaethedig yn elfen sylweddol o hyn.

69.) Mae swyddogion yn cydweithio â Chyrff Cadwraeth Natur Statudol i ddatblygu'r sail dystiolaeth sylfaenol i lywio'r gwaith o ddynodi safleoedd arfaethedig. Fel rhan o'r broses hon, mae'n hanfodol bod y safleoedd arfaethedig yn cael eu hasesu'n drylwyr am eu heffeithiau economaidd-gymdeithasol posibl trwy Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA).

70.) Mae Llywodraeth Cymru wedi profi oedi wrth geisio bwrw ymlaen â'r asesiad hwn, ond mae contractwr wedi'i benodi erbyn hyn a chyllideb wedi'i dyrannu i wneud y gwaith hwn. Bydd y gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dechrau ym mis Ionawr 2025.

## Cyllid ar gyfer cyflawni cynllun wedi'i dargedu i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli ar hyd arfordir Cymru.

71.) Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli gan gydnabod y buddion sydd ganddynt ar gyfer bioamrywiaeth, ansawdd dŵr ac atafaelu carbon.

72.) Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Morwellt Cenedlaethol (NSAP) ac rydym wedi dyrannu cyllideb drwy ein Cynllun Grant Ardal Forol Warchodedig i gefnogi'r gwaith o nodi bylchau mewn tystiolaeth a fydd yn ein galluogi i barhau i gynorthwyo gyda gwaith adfywio ar hyd arfordir Cymru.

73.) Drwy'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur mae Llywodraeth Cymru yn ariannu nifer o brosiectau i gefnogi gwaith llwyddiannus i adfywio morfeydd heli ledled Cymru.

## Gwella ansawdd dŵr, gan gynnwys cymorth i'r Tasglu Gwella Ansawdd Dŵr Afonydd i fwrw ymlaen â chamau gweithredu sy'n deillio o'r adroddiad Stantec.

74.) Mae ansawdd dŵr o dan bwysau o fygythiadau amrywiol. Priodolir prif achosion methiant o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yng Nghymru i'r sector amaeth, mwyngloddio a chwarela (gan gynnwys llygredd o fwyngloddiau metel gadawedig), y sector trafnidiaeth, llygredd trefol a gollyngiadau'r diwydiant dŵr. Mae'n angenrheidiol bod dull traws-sector integredig yn cael ei ddatblygu a'i weithredu ledled Cymru er mwyn sicrhau gwelliant i ansawdd dŵr yn y tymor hir. Gan gydnabod y pwysau hwn, yn 2024-2025 gwnaethom ddarparu cyllid grant cyfalaf o £15 miliwn i CNC i wella cydymffurfiaeth â Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 a deddfwriaeth gysylltiedig a fydd yn sicrhau gwelliannau i ansawdd dŵr. Mae'r gwaith hwn yn cwmpasu cynlluniau proffil uchel gan gynnwys y rhaglen gyweirio mwyngloddiau metel, sy'n cynnwys atal dymchweliadau (‘blow outs’), cynlluniau trin dŵr a dargyfeirio cyrsiau dŵr. Bydd y rhaglen hon yn derbyn cynnydd o £3m yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, fel y gellir symud ymlaen â chynlluniau ychwanegol, er enghraifft prosiectau ychwanegol i gyweirio mwyngloddiau metel.

75.) Un o ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu yw dechrau dynodi safleoedd dyfroedd ymdrochi mewndirol, yn dilyn llwyddiannau ein dyfroedd ymdrochi arfordirol. Rydym wedi parhau i gynyddu gallu Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gynnal cyllid ar gyfer cyngor arbenigol pwrpasol ar ansawdd dŵr.

76.) Hyd yn hyn rydym wedi darparu tua £2m o gyllid i'n Byrddau Rheoli Maethynnau i gefnogi'r gwaith o gyflawni camau blaenoriaeth mewn dalgylchoedd afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n methu. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r gwaith ehangach ar wneud gwelliannau i afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig lle’r ydym wedi bod yn ymgysylltu â phob sector i fynd i'r afael â llygredd mewn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n methu yng Nghymru. Bu nifer o Uwchgynadleddau dan arweiniad gweinidogion yn trafod y materion a chytuno ar gamau gweithredu. Rydym yn cytuno ar ffordd ymlaen ar gyfer y gwaith wrth i ni drosi i sicrhau bod strategaethau yn cael eu cyflawni'n effeithiol ar lawr gwlad.

## Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan gynnwys y niferoedd sy'n dewis manteisio ar y Grant Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r Gronfa Rheoli Llifogydd yn Naturiol.

77.) Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn nodi sut y byddwn yn rheoli perygl o lifogydd ac erydu arfordirol dros y degawd nesaf gyda'r amcanion i flaenoriaethu buddsoddiad, gwella ein dealltwriaeth o berygl, meithrin gwytnwch, atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â pherygl ac ymateb i ddigwyddiadau. Rydym yn cynnal y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad mewn rheoli perygl llifogydd.

78.) Eleni mae'r rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol wedi ariannu cynlluniau CNC sylweddol yn Stephenson Street, Casnewydd a Rhydaman. Mae'r rhaglen yn ariannu 200 a mwy o gynlluniau a arweinir gan awdurdodau lleol ledled Cymru, gyda dros £12m wedi'i fuddsoddi mewn cynlluniau adeiladu awdurdodau lleol. Wrth edrych ymlaen at 2025/26, mae gennym gyfres addawol iawn o gynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod hefyd, gyda gwerth dros £70m o gynlluniau cyfalaf at y dyfodol eisoes yn cael eu datblygu, ac mae disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau ar nifer ohonynt y flwyddyn nesaf.

79.) Mae ein Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol wedi dyfarnu i'r 15 cynllun sydd o fewn y cwmpas. Mae'r gwaith adeiladu bellach wedi dechrau ar yr holl gynlluniau sy’n weddill a bydd y gwaith yn parhau yn 2025/26. Bydd y rhaglen yn buddsoddi £200m a mwy mewn seilwaith arfordirol allweddol ac yn

lleihau'r perygl o lifogydd a/neu erydu arfordirol i 15,200 a mwy o gartrefi a busnesau.

80.) Ers 2020, rydym wedi darparu cyllid drwy Raglen Beilot Rheoli Llifogydd yn Naturiol, wedi'i hariannu drwy'r gyllideb llifogydd a Rhaglen Sbarduno ar gyfer Rheoli Llifogydd yn Naturiol a ariannwyd drwy'r Cynllun Buddsoddi Gwledig. Gan adeiladu ar y gwaith gwych a weithredwyd gan Awdurdodau Rheoli Risg, rydym wedi dyrannu £2m ar gyfer 2025/26 drwy'r gyllideb llifogydd. Bydd hyn yn cefnogi Awdurdodau Rheoli Risg i adeiladu ar gynlluniau presennol a pharhau i ddysgu sut y gall rheoli llifogydd yn naturiol nid yn unig fod o fudd i liniaru llifogydd, ond hefyd sicrhau buddion lluosog ar gyfer ansawdd dŵr ac ar gyfer natur.

## Cymorth i waith Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru a datblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol mwy parhaol.

81.) Rwyf wedi ymrwymo i weithio tuag at sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru ac rwyf wedi dyrannu cyllid ychwanegol i gefnogi hyn.

82.) Mae cyllideb Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEAPW) o £120,000 wedi cynyddu i £165,000 yn dilyn penodi dau Ddirprwy Asesydd Interim ac mae'n rhan o'r gyllideb ehangach ar gyfer llywodraethu amgylcheddol.

## Parciau Cenedlaethol

83.) Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cynnydd mewn cyllid craidd ar gyfer pob un o'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd statudol i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol a chymorth yn ôl disgresiwn hefyd i'n Tirweddau Cenedlaethol.

84.) Bydd dyraniad cyllideb penodol yn 2025/26 yn parhau i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yn y Gogledd-ddwyrain.

85.) Mae dynodi Parc Cenedlaethol yn ymrwymiad sylweddol ac mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru, ein cynghorwyr statudol yn y maes hwn, i ymgymryd â'r gwaith paratoi angenrheidiol. Mae rhaglen Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys gwaith asesu, casglu a dadansoddi manwl o'r dystiolaeth ar gyfer dynodiad newydd, yn ogystal ag

ymgysylltu ac ymgynghori. Mae'r cyllid hwn yn sicrhau y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni'r gwaith dynodi mor effeithiol a thrylwyr â phosibl, gyda'r arbenigedd a'r gallu angenrheidiol.

86.) Mae'r cyllid yn darparu refeniw ychwanegol hefyd i Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i feithrin gallu a gwytnwch tra bod y gwaith dynodi yn mynd rhagddo, yn ogystal â darparu adnoddau i Lywodraeth Cymru gynnal ei hasesiadau ei hun mewn perthynas â'r broses ddynodi nawr bod y rhaglen wedi cyrraedd cam mwy datblygedig.

# Newid Hinsawdd

## Cyflawni'r polisïau a'r cynigion yng nghynllun Sero Net Cymru sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor hwn.

87.) Mae camau datgarboneiddio ar draws yr wyth prif sector allyriadau yn dod o dan 123 o bolisïau a chynigion yng nghynllun Sero Net Cymru. Y peth mwyaf perthnasol i'r pwyllgor hwn yw camau a gymerwyd gan y sector ynni, y sector trafnidiaeth, a'r sector cyhoeddus i ddatgarboneiddio. Caiff y gwaith o gyflawni'r camau hyn ym maes Ynni a Thrafnidiaeth ei arwain gan Ysgrifenyddion eraill y Cabinet ac nid yw'n cael ei adlewyrchu yn fy nghyllideb i.

88.) Rydym yn parhau i gefnogi camau gweithredu i ddatgarboneiddio yn y sector cyhoeddus, yn unol â'n huchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn sero net ar y cyd erbyn 2030. Yn 2025/26 byddwn unwaith eto yn buddsoddi £21m a mwy mewn benthyciadau a grantiau ar gyfer buddsoddiad parhaus mewn effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r prosiectau hyn yn helpu i arbed costau yn ogystal â lleihau carbon.

## Effaith polisïau arfaethedig Llywodraeth y DU ar ymdrechion Llywodraeth Cymru i gefnogi sero net.

89.) Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â llywodraethau ledled y DU i gydweithredu tuag at ein nod cyffredin o sero net erbyn 2050. Mae dros hanner allyriadau Cymru yn deillio o sectorau y mae eu polisïau wedi'u cadw'n ôl i Lywodraeth y DU i raddau helaeth. Rydym yn croesawu Cenhadaeth Ynni Glân Llywodraeth y DU wrth iddi geisio cyflymu cynnydd y DU tuag at ffynonellau pŵer glân erbyn diwedd y ddegawd. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar allu Cymru i leihau ei hallyriadau o ystyried natur gydgysylltiedig y rhwydwaith ynni yn y DU. Rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU er mwyn cysoni'r camau i gyflymu'r broses o gyflwyno ynni adnewyddadwy.

## Camau ar gyfer addasu i newid hinsawdd, a manylion dyraniadau penodol i gefnogi'r strategaeth newydd ar addasu i newid hinsawdd.

90.) Dyrennir cyllid i gyflawni'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Gymru 2024. Yn 2025/26 bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu fframwaith ar gyfer monitro addasiadau, ymgysylltu â'r sector cyhoeddus ehangach ar ddarparu ac adrodd ar fesurau addasu, a chyfraniad Cymru i Bwyllgor Addasu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd. Mae manylion ar gyllid penodol ar gyfer camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth addasu ar gael o dan y maes polisi perthnasol, lle mae'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn.

## Gweithredu Strategaeth Coetiroedd i Gymru ac argymhellion y gwaith ymchwil trylwyr i Goed a Phren yn 2021, gan gynnwys cyflawni'r Goedwig Genedlaethol a chynyddu cyfradd plannu coed.

91.) Bydd y gyllideb yn ariannu gwaith i ehangu Coedwig Genedlaethol Cymru ymhellch, gan gynnwys trwy gymorth parhaus i safleoedd sydd am ymuno â'r Cynllun Statws, yn ogystal â dulliau newydd o ddarparu ar raddfa tirwedd. Gyda'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren i fod i gael ei chyhoeddi yn y flwyddyn ariannol nesaf, bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn y sector gan gynnwys trwy fuddsoddiad cyfalaf arfaethedig a darparu sgiliau. Bydd yn cael ei ddefnyddio hefyd i gefnogi ymyriadau i helpu i gynyddu ein cyfraddau plannu coed er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau sero net.

# Cyfoeth Naturiol Cymru

| Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26 | Cyllid Rheolaidd Ychwanegol ers y Llinell Sylfaen Diwygiedig £000 | Cyllideb Ddrafft 2025-26 Rhagfyr 2024 £000 |
|---|---|---|---|---|
| 2451 | Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru | 124,339 | 19,065 | 143,404 |
| 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru - Heb fod yn arian parod | 10,000 | | 10,000 |
| 2454 | Cyfoeth Naturiol Cymru - Incwm o Bren | -33,080 | | -33,080 |
| 2455 | Incwm Ffermydd Gwynt drwy CNC | -10,000 | | -10,000 |
| Cyfanswm Noddi a Rheoli Cyrff Cyflawni | | 91,259 | 19,065 | 110,324 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2451 | Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf Cyfoeth Naturiol Cymru | 25,106 | 2,700 | 27,806 |
| Cyfanswm Noddi a Rheoli Cyrff Cyflawni | | 25,106 | 2,700 | 27,806 |

92.) Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghoriad ffurfiol gyda'i Undebau Llafur cydnabyddedig a bu'n ymgysylltu â'i staff mewn cysylltiad â'i 'Achos dros Newid' arfaethedig i gyflawni arbedion. Drwy'r broses hon, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi rhai gweithgareddau / gwasanaethau a fydd yn cael eu darparu'n wahanol neu'n cael eu lleihau i gefnogi'r gwaith o ail-lunio'r sefydliad.

93.) Nododd yr achos dros newid feysydd buddsoddi lle'r oedd Cyfoeth Naturiol Cymru am feithrin capasiti a gallu fel bod modd cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Bydd cynnydd yn y gyllideb yn golygu y gellir gwneud y buddsoddiad hwnnw.

## Manylion unrhyw swyddogaethau, dyletswyddau neu gyfrifoldebau newydd y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hysgwyddo yn ystod cyfnod y gyllideb a'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu at y dibenion hynny.

94.) Bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru swyddogaethau newydd mewn perthynas â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. Mae cyllid wedi'i ddarparu yn y dyraniadau i BEL 2190. Mae gwaith manwl yn cael ei wneud i gadarnhau'r gweithgarwch a'r costau cysylltiedig i gefnogi rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

95.) Mae'r drafodaeth rhwng CNC a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi i gyrraedd setliad terfynol yn parhau mewn perthynas ag IR35.

# Atodiad A –Dyraniadau yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)

96.) Bydd yr adran hon yn darparu dadansoddiad o'r dyraniadau yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant y Gyllideb (BEL).

## Ansawdd yr Amgylchedd a Materion Morol

### Morol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2875 - Morol | 2,361 | - |
| **Gweithgarwch arfaethedig y BEL** | | |
| Dyraniad ychwanegol o £0.7m yn 25/26.<br><br>Uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd morol yw cael bod moroedd Cymru yn 'lân, iach, diogel, cynhyrchiol ac amrywiol yn fiolegol'. Bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio i gyflawni blaenoriaethau morol y Dirprwy Brif Weinidog er mwyn helpu i gyflawni'r uchelgais hon, gan gynnwys ymrwymiad penodol y Rhaglen Lywodraethu ar adfer yr arfordir.<br><br>Bydd gwaith yn canolbwyntio ar gynllunio morol a thrwyddedu, bioamrywiaeth a datblygu polisi ar y newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn parhau i wella gwytnwch ecosystemau trwy ddynodi rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac ymyriadau adfer wedi'u targedu wrth gynnal ein hymrwymiadau i fodloni Statws Amgylcheddol Da. Byddwn yn ymateb i dystiolaeth sy'n datblygu ynghylch cynefinoedd carbon glas a'u pwysigrwydd byd-eang fel rhan o'n prosesau yn y dyfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau morol, a chyfrannu at gyflawni Sero Net. | | |

## Dŵr a Llifogydd

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2230 – Llifogydd a Dŵr | 2,981 | 30,021 |
| **Pwrpas y BEL** | | |

Rhaglen Refeniw Arfaethedig

Mae Cyllideb Adnoddau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn ariannu Awdurdodau Rheoli Risg Cymru i raddau helaeth i ymgymryd â gweithgareddau fel cynnal a chadw asedau, gwaith codi ymwybyddiaeth, gwaith mapio ar gyfer ymchwiliadau llifogydd (adroddiadau Adran 19), , rhybuddio, hysbysu a chostau staff.

Rhaglen Refeniw Dŵr

Defnyddir y rhaglen hon i gyflawni swyddogaethau statudol a rheoleiddiol mewn perthynas â dŵr a charthffosiaeth, gan gynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid ar adolygiad statudol 2024 o brisiau sy'n gosod biliau dŵr a ffioedd a buddsoddiadau cwmnïau dŵr ar gyfer 2025 – 2030. Mae hefyd yn ariannu cymorth i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu er mwyn cryfhau'r gofynion ar gyfer defnyddio systemau draenio cynaliadwy sy'n darparu cynefinoedd bywyd gwyllt a dechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan gryfhau gwaith monitro ansawdd dŵr.

Rhaglen Cyfalaf Llifogydd

Mae cyllid cyfalaf nid yn unig yn cael ei ddefnyddio i adeiladu cynlluniau newydd ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordirol ond i ariannu achos busnes paratoadol a gwaith dylunio hefyd cyn y gwaith adeiladu. Mae CNC yn cael ei ariannu drwy BEL CNC.

Rhaglen Cyfalaf Dŵr

Nod Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 yw lleihau llygredd a gwella cyflwr ecosystemau dyfrol, hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddŵr a lleihau effeithiau llifogydd a sychder.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi rhaglen waith amlflwyddyn hyblyg sydd â'r nod o leihau nifer y cyrsiau dŵr sy'n methu â chyrraedd statws ecolegol da. Rydym yn cynnig darparu'r cyllid angenrheidiol i Cyfoeth Naturiol Cymru fel y gall ymgymryd â gwaith sydd wedi'i flaenoriaethu gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol y cytunwyd arnynt:

- Sicrhau gwelliannau i ansawdd dŵr a/neu welliannau mewn gwytnwch i bwysau ansawdd dŵr;
- Allbynnau cyfalaf clir, mesuradwy (yn cyflawni/ bydd yn cyflawni'r camau gweithredu ar lawr gwlad);

- Hyderus iawn yn y gallu i gyflawni yn y flwyddyn ariannol;
- Statws y corff dŵr o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) a/neu fethu yn erbyn amod priodwedd Ardal Cadwraeth Arbennig; a
- Gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys gwaith cyweirio ar gyfer mwyngloddiau metel gadawedig er mwyn helpu i atal gollyngiadau llygredd peryglus i ddyfrffyrdd, a gwaith cyfalaf amrywiol i fynd i'r afael â'r ffactorau allweddol sy'n achosi methiannau ansawdd dŵr. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith yn unol â ble mae'n cael yr effaith fwyaf a lle y gellir ei gwblhau yn y flwyddyn ariannol hon.

## Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2232 – Sicrhau Diogelwch Tomenni Glo a Chronfeydd Dŵr | 5,836 | 38,217 |

**Pwrpas y BEL**

Diogelwch Tomenni Glo

Mae'r BEL ar gyfer y Cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo i awdurdodau lleol wneud gwaith ar domenni, sydd wedi'u nodi mewn adroddiadau arolygu neu le mae llithriad wedi digwydd. Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i gam olaf gwaith cyweirio tomen lo Tylorstown a gwaith ar gronfeydd dŵr.

Mae'r cynllun grant yn sicrhau bod cyllid ar gael i Awdurdodau Lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru i gwblhau gweithgareddau cynnal a chadw ar domenni glo sy'n eiddo cyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau bod y rhain yn parhau mewn cyflwr lle mae bygythiad o lithriad yn cael ei reoli a'i leihau. Mae enghreifftiau proffil uchel o ble defnyddiwyd y gyllideb flaenorol yn cynnwys gwaith cyweirio Tylorstown, a Dyffryn Rhondda.

Yn ail, mae'r gyllideb yn cydnabod y costau gweithredu sy'n codi o'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) sy'n cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2024. Mae dyraniadau cyllidebol wedi'u gwneud mewn perthynas â chostau sefydlu corff newydd, fel yr amlinellir hefyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae cyllid wedi'i gynnwys hefyd ar gyfer parhad gwaith yr Awdurdod Glo yn ymwneud â'r gyfundrefn arolygu.

Diogelwch Cronfeydd Ddŵr

Mae diogelwch cronfeydd dŵr yn hanfodol bwysig hefyd o ystyried y risgiau os nad oes gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud arnynt a'r rhagolygon ar gyfer newidiadau i'r hinsawdd yng Nghymru yn y dyfodol. Adlewyrchwyd hyn yn nyraniadau'r gyllideb gyda £4.9m ar gael ar gyfer diogelwch cronfeydd dŵr.

# Tir Natur Coedwigaeth

## Bioamrywiaeth, Tystiolaeth a Mawndiroedd

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2825 - Bioamrywiaeth, Tystiolaeth a Mawndiroedd | 11,520 | 12,500 |
| BEL 2814 - Rheolaeth Amgylcheddol (Pwllperian) (Heb fod yn Arian Parod) | 38 | - |

**Pwrpas y BEL**

Mae'r gwaith bioamrywiaeth yn canolbwyntio ar gamau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu gan gynnwys:

- Rhaglen Rhwydweithiau Natur – gwella cyflwr a chysylltedd ein rhwydwaith safleoedd gwarchodedig (gwella mannau gwyrdd).
- Partneriaethau Natur Lleol – hyrwyddo'r gwaith o gydgysylltu camau gweithredu sy'n cael eu hysgogi'n lleol.
- Datblygu targedau sy'n rhwymo mewn cyfraith a mecanweithiau adrodd a monitro priodol drwy Fil blwyddyn pedwar.
- Ymgorffori bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau drwy'r tasglu bioamrywiaeth a dyletswydd adran 6.
- Adfer rhywogaethau gan gynnwys peillwyr ac iechyd gwenyn

Mae'r BEL yn ariannu'r canlynol hefyd;

- Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

Mae'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol, gydgysylltiedig drwy Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y gwaith parhaus

o adfer mawndiroedd. Y nod yw adfer ecosystemau gweithredol sydd yn eu tro yn diogelu a storio carbon.

## Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2802 - Diogelu a Rheoleiddio Planhigion a Bywyd Gwyllt | 1,407 | 0 |
| **Pwrpas BEL** | | |

Dyraniad ychwanegol o £0.5m yn 25/26.

Mae'r BEL hwn yn cefnogi gwaith i gynnal **Bioddiogelwch ar gyfer planhigion**, yng Nghymru, datblygu polisi ar gyfer **technolegau genetig newydd** a rheoleiddio **Organeddau a Addaswyd yn Enetig (GMO).** Mae hyn yn cynnwys yr holl ddatblygiadau polisi ac unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag ymateb i frigiadau o achosion lle nad ydynt yn dod o dan ein cytundebau gyda Defra, CNC, y Comisiwn Coedwigaeth a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn cael eu hariannu drwy gytundeb gyda Defra. Mae'r BEL yn cefnogi **gwaith polisi ar droseddau gwledig a bywyd gwyllt** hefyd, gan gynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â hela, maglau, trapiau glud, rheoli moch gwyllt, trwyddedu/rheoleiddio unrhyw achos o **aflonyddu ar neu ymyrryd â moch daear** a'u setiau, gan gynnwys profion TB ar foch daear. Mae'n ariannu'r **swyddog troseddau bywyd gwyllt a gwledig**. Mae'n ariannu'n rhannol y **Cynllun Ymchwilio i Ddigwyddiadau Bywyd Gwyllt** yng Nghymru sy'n ymchwilio i achosion tybiedig o wenwyno bywyd gwyllt, anifeiliaid anwes a phryfed llesiannol a ariennir yn rhannol gan ardoll plaladdwyr. Mae'r BEL yn ariannu rhywfaint o'r gwaith o ddileu **rhywogaethau estron goresgynnol** a gwaith polisi ar rywogaethau goresgynnol. Mae'n ariannu gwaith polisi ar **Amrywogaethau Planhigion a Hadau,** gan gynnwys cynnal y rhestrau cenedlaethol o hadau ac amrywogaethau planhigion, gan gynnwys unrhyw gostau tribiwnlys y mae'n rhaid i Gymru eu hysgwyddo. Mae'r BEL yn cefnogi'r gwaith o **reoleiddio asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer Amaethyddiaeth.** Mae'r BEL yn ymdrin â gwaith polisi ar **reoleiddio plaladdwyr a**

| |
|---|
| bioladdwyr lle mae'r gwaith gweithredol yn cael ei ariannu drwy Defra ac mae polisi'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i ddatganoli ond nid yw cyllidebau wedi'u datganoli. |

## Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

| Disgrifiad o’r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2820 - Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | 2,650 | 12,564 |
| **Pwrpas y BEL** | | |

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn bwriadu helpu cymunedau i greu natur ar garreg y drws. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at gymunedau a sefydliadau cymunedol i adfer a gwella natur yn eu hardaloedd lleol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig a chymunedau heb ddim neu farw ddim mynediad at natur. Dechreuodd y rhaglen yn 2020 ac mae'n cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu gyfredol, "Ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol”.

Caiff cyllid cyfalaf ei ddirprwyo i dri Rheolwr Cynllun, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cadwch Gymru'n Daclus (KWT) a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) sy'n gweithio ar y cyd, yn rhedeg cynlluniau unigol;

1) CGGC - 25 Partneriaeth Natur Lleol, dan arweiniad Awdurdodau Lleol ac mae Parciau Cenedlaethol yn darparu prosiectau yn lleol.

Cynllun grant cyfalaf cystadleuol mynediad agored sy'n cael ei redeg gan NLHF, drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
Cadwch Gymru'n Daclus - Pecynnau Cymunedol i greu gerddi peillwyr a gerddi tyfu cymunedol gan gynnwys ar strwythurau o waith dyn.

## Coedwigaeth

| Disgrifiad o’r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2827 - Coedwigaeth | 6,436 | 9,310 |
| BEL 2827 - Coedwigaeth (Heb fod yn arian parod) | 83 | - |
| **Pwrpas BEL** | | |

Coedwig Genedlaethol

Wedi'i ddyrannu i ariannu Swyddogion Cyswllt Coetiroedd Coedwig Genedlaethol, ariannu'r gwaith o greu a gwella coetiroedd sy'n bodloni safonau Coedwig Genedlaethol a chreu coetiroedd coffa Covid-19.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Trawsffiniol

Wedi'i ddyrannu i gwmpasu meysydd lle mae cydweithredu trawsffiniol yn fuddiol: iechyd coed, y Cod Carbon Coetiroedd, ymchwil coedwigaeth, economeg coedwigaeth a Safon Coedwigaeth y DU. Mae Cymru'n cyfrannu 10% o gyfanswm y cyllid i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gyda 90% o'r cyllid wedi'i rannu rhwng yr Alban a Lloegr.

Polisi Coedwigaeth

Wedi'i ddyrannu i greu mwy o goetiroedd ac i dalu costau parhaus polisi coedwigaeth.

Strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren

Wedi'i ddyrannu i ariannu'r prosiect Cartrefi o Bren Lleol a chreu'r strategaeth.

Cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru

Wedi'i ddyrannu i ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio bod cynlluniau creu coetiroedd yn cyrraedd Safon Coedwigaeth y DU.

Adfer Coetiroedd

Wedi'i ddyrannu i adfer coetiroedd y mae clefyd coed yn effeithio arnynt.

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Forest Research

Forest Research yw asiantaeth ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth. Trwy ein cytundeb gwasanaeth rydym yn ariannu'r asiantaeth i fapio coetiroedd yng Nghymru, darparu gwasanaeth monitro a gwyliadwriaeth ar iechyd coed a nodi clefydau coed ac ymchwilio i faterion allweddol ym maes rheoli coedwigoedd.

Cyfansymiau heb fod yn arian parod o 83k.

## Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2490 – Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad | 13,051 | 8,900 |

**Pwrpas y BEL**

Darparu cyllid craidd i dri Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Ariannu unrhyw benodiadau cyhoeddus i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae gan ein Tirweddau Dynodedig (Parciau Cenedlaethol (20%) ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (5%)) rôl hanfodol wrth ddiogelu rhai o'n hardaloedd mwyaf gwerthfawr a hardd ac maen nhw'n gorchuddio 25 y cant o arwynebedd tir Cymru. Maent yn ysgogwyr allweddol hefyd ar gyfer nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys twristiaeth, bioamrywiaeth, datgarboneiddio, iechyd a lles, cymunedau cynaliadwy, a'r Gymraeg. Mae grant strategol Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn sicrhau bod y tirweddau hyn yn cael eu rheoli mewn ffordd wydn ac yn gallu gwireddu'r uchelgeisiau hyn.

Yn ogystal â chyllid ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, roedd y gyllideb ddrafft yn cynnwys cyllid ar gyfer nifer o feysydd cysylltiedig, gan gynnwys:

Darparu cyfraniad Llywodraeth Cymru at gynnal a hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru.

Darparu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Ariannu nifer o raglenni, gwasanaethau ac ymyriadau i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Prif Weinidog o ran mynediad a hamdden, mannau gwyrdd a rhandiroedd.

Ariannu nifer o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru fel unrhyw achosion llys sy'n ymwneud â mynediad.

Ariannu ffrydiau gwaith sy'n edrych ar Barc Cenedlaethol newydd y Gogledd-ddwyrain, gan gynnwys ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, ein cynghorwyr statudol yn y maes hwn.

## Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDTCS)

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2195 - Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDTCS) | 500 | - |
| **Pwrpas y BEL** | | |
| Ym mis Ebrill 2018, cafodd y gwaith o gasglu treth dirlenwi ei ddatganoli i Gymru, fel y nodir yn Neddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017. Mae adran 92 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a fydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyllid grant er budd cymunedau y mae gwarediadau tirlenwi neu weithgareddau mewn gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yn effeithio arnynt. Mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yn cael ei chynnal ar lefelau 2024/25. | | |

## Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2190 - Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 35,800 | 41,853 |
| **Pwrpas y BEL** | | |

Ariannu Partneriaid Cyflawni
Mae darparu'r gwaith ar economi gylchol yn dibynnu'n fawr ar y cymorth allanol a ddarperir gan Gyrff Cyflawni amrywiol, sy'n darparu arbenigedd a gallu hanfodol i gyflawni yn erbyn yr holl ymrwymiadau. Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gyda WRAP a Phartneriaethau Lleol i sicrhau bod adnoddau yn gydnaws â blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Rhaglen Seilwaith Economi Gylchol - gan gryfhau trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau yn achos y cyntaf ac chynorthwyo Awdurdodau Lleol i gynhyrchu achosion busnes cadarn ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith.

Yn ogystal, mae'r gyllideb yn cefnogi partneriaid cyflawni fel Caffi Trwsio Cymru i gyflwyno caffis trwsio ledled Cymru a Fareshare i drefnu ailddosbarthu bwyd o'r diwydiant bwyd i gymunedau mewn angen ledled Cymru - bwyd a fyddai fel arall yn cael ei wastraffu.

Mae hyn hefyd yn cynnwys cyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi rhoi diwygiadau ailgylchu yn y gweithle, y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) a'r Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) ar waith drwy ddarparu cyngor technegol a chyngor gorfodi manwl ac fel rheoleiddiwr yr economi gylchol yng Nghymru. Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yw'r prif awdurdod ar gyfer troseddau gwastraff ac olrhain gwastraff ac mae gan y corff rôl allweddol mewn gwaith datgarboneiddio i fynd i'r afael ag allyriadau o safleoedd tirlenwi etifeddol.

Y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy
Cyllid i helpu Awdurdodau Lleol i gynllunio, datblygu a gweithredu gwelliannau strategol yn eu dull o ymdrin â'r Economi Gylchol, symud i fyny'r hierarchaeth wastraff a pharatoi ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr.

Ailgylchu - Gwella wedi'i Dargedu a Chynllunio Strategol
Cyllid ar gyfer parhau i wella o ran perfformiad ac effeithlonrwydd gwasanaethau casglu ailgylchu a gwasanaethau ehangach, gan gynnwys trwsio ac ailddefnyddio. Canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio'r dystiolaeth i gymryd camau i wella cyfraddau ailgylchu Cymru er mwyn cyrraedd y targed 70 y cant a pharatoi ar gyfer gweithredu taliadau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar sail effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

EPR, DRS ac Ailgylchu yn y Gweithle
Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i ddarparu EPR, DRS a Diwygiadau Ailgylchu yn y Gweithle. Mae'r ymrwymiadau hyn yn

cynrychioli diwygiadau ymhob rhan o'r economi gydag arbedion carbon sylweddol yn ogystal â bod yn hanfodol er mwyn gweld cynnydd pellach ar ailgylchu wrth symud i fyny'r hierarchaeth wastraff.

Cronfa Economi Gylchol ar gyfer Busnes
Mae'r cyllid yn cyflawni'r ymrwymiad allweddol yn *Mwy nag Ailgylchu* a *Cymru Sero Net* i gefnogi busnesau i addasu eu prosesau er mwyn dod yn fwy cylchol, er enghraifft wrth ddefnyddio cynnwys wedi'i ailgylchu wrth weithgynhyrchu neu symud i ddeunyddiau mwy cynaliadwy ac mae'n dilyn y peilot llwyddiannus a roddwyd ar waith dros y tair blynedd diwethaf.

Cronfa Economi Gylchol ar gyfer y Sector Cyhoeddus
Mae'r cyllid cyfalaf hwn wedi'i dargedu'n bennaf at Awdurdodau Lleol, er mwyn mynd i'r afael â chamau gweithredu craidd yr Economi Gylchol a datblygu llif o brosiectau seilwaith yr economi gylchol sy'n cael eu datblygu ar y cyd ag Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau mewn perfformiad ailgylchu, cynyddu gweithgarwch trwsio ac ailddefnyddio, gwella gallu i wrthsefyll newid hinsawdd a datgarboneiddio gweithrediadau gwastraff ac ailgylchu yn unol â tharged 2030.

Mae cyllid hefyd yn cael ei ddyrannu i gefnogi Awdurdodau Lleol i barhau i newid eu fflyd i gerbydau casglu allyriadau isel iawn ar gyfer ailgylchu a gwastraff gweddilliol.

Staff Rhaglenni
Staff a ariennir gan raglenni sy'n hanfodol i gyflawni Strategaeth Economi Gylchol ac ymrwymiadau cyffredinol Rhaglen Lywodraethu a Cymru Sero Net Llywodraeth Cymru.

# Nawdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Diogelu'r Amgylchedd

## Cyfoeth Naturiol Cymru

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Gyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2451 - Cyfoeth Naturiol Cymru | 143,404<br><br>10,000 heb fod yn arian parod | 27,806 |
| BEL 2454 - CNC – Incwm o Bren | -33,080 | |
| BEL 2455 – Incwm Ffermydd Gwynt | -10,000 | |
| **Pwrpas y BEL** | | |

Mae'r BEL hon yn darparu Cymorth Grant i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ei brif gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol. Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif gynghorydd amgylcheddol a rheoleiddiwr Llywodraeth Cymru ac mae'n helpu i gyflawni ystod eang o flaenoriaethau ac ymrwymiadau gweinidogol wrth weithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Darperir cyllid cyfalaf hefyd i Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi eu gweithgareddau craidd a ariennir gan gyllid cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys gwaith datblygu cynlluniau (gan gynnwys datblygu achosion busnes), prosiectau mapio a modelu, costau staff, TGCh ar gyfer prosiectau llifogydd, a gwaith cynnal a chadw fflyd ceir/llogi peiriannau a chyfalaf. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllid perygl llifogydd.

Cyfansymiau heb fod yn arian parod - £10m

## Diogelu'r Amgylchedd

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| BEL 2817 - Diogelu'r Amgylchedd (Ymbelydredd ac Atal Llygredd gynt) | 6,722 | 2,686 |
| **Pwrpas y BEL** | | |
| Mae'r BEL hon yn cefnogi'r gwaith polisi a deddfwriaethol mewn perthynas ag ansawdd aer, cemegau, sŵn amgylcheddol, llygredd diwydiannol, ac ymbelydredd/gwastraff ymbelydrol. Mae hyn yn cynnwys rhoi deddfwriaeth gysylltiedig ar waith yn ôl yr angen i gyflawni'r mesurau polisi hynny. Mae hefyd yn ymdrin â rheoli achosion o dorri rheoliadau, gan gynnwys rhai costau cyfreithiol, sy'n gysylltiedig â llygredd diwydiannol ac ansawdd aer. | | |

## Deddfwriaeth a Llywodraethiant ym maes yr Amgylchedd

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 2812 - Deddfwriaeth, Llywodraethiant a Chyfathrebu yn maes yr Amgylchedd | 1,977 | - |
| **Gweithgarwch arfaethedig y BEL** | | |

Mae'r BEL yn darparu cyllideb ar gyfer costau deddfwriaeth, costau llywodraethiant a chostau cyfreithiol sy'n effeithio ar raglenni amgylcheddol a rhaglenni cysylltiedig y MEG ac mae'n cynnwys costau staffio rhaglenni ar gyfer cyfreithiwr.

Mae'r BEL hefyd yn cefnogi ymrwymiad y Gweinidogion i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol a gweithredu Deddf yr Amgylchedd drwy nifer o gynlluniau cyflawni. Mae'n cefnogi'r swyddi staff sydd eu hangen i redeg a rheoli'r cynlluniau a'r rhaglenni grant hyn. Mae hefyd yn helpu i gefnogi'r rhaglen Eco-Sgolion ryngwladol ledled Cymru, ymrwymiad y Gweinidogion i'r rhaglen addysgol plannu coed a newid hinsawdd a ddarperir gan yr elusen Maint Cymru.

Mae hefyd yn darparu ar gyfer gwaith paratoi ar gyfer y Corff Llywodraethu Amgylcheddol newydd.

Mae'r gyllideb hon hefyd yn cefnogi gwaith i ymgorffori Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2017 a'r Polisi Adnoddau Naturiol.

# Newid Hinsawdd

## Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|
| BEL 2809 – Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) | 4,170 | 22,000 |
| **Pwrpas y BEL** | | |
| BEL 2809 Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru – Bwriad y buddsoddiad hwn yw cefnogi cyrff cyhoeddus i ymgymryd ag effeithlonrwydd ynni, a phrosiectau ynni adnewyddadwy. Mae hefyd yn cefnogi cymunedau i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, lleihau eu costau ynni a buddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy a'r fenter Byw'n Glyfar sy'n ysgogi arloesedd datgarboneiddio cyn y farchnad ac sy'n seiliedig ar leoedd (gan gynnwys systemau cyfan a hydrogen).<br><br>Mae'r gyllideb hon hefyd yn cynnwys gweithredu'r map llwybr sector cyhoeddus sero net, cyhoeddi adroddiad blynyddol a chanllaw allyriadau carbon sector cyhoeddus Cymru.<br><br>Mae cyllid cyfalaf FTC ychwanegol o £10.0m hefyd wedi'i gynnwys uchod. | | |

## Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd

| Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Refeniw £000 | Cyllideb Gyfalaf £000 |
|---|---|---|

| BEL 3771 – Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd | 3,796 | - |
|---|---|---|
| **Pwrpas BEL** | | |

Addasu i'r Hinsawdd

Ymgymryd ag ymarfer ymgysylltu ac adolygu i ddeall y sefyllfa bresennol o ran parodrwydd ar gyfer risg yn ymwneud â'r hinsawdd ar draws y sector cyhoeddus a nodi unrhyw gyfyngiadau ar gynllunio addasiadau.

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweinyddu'r cynllun grant enghreifftiol peilot i gefnogi mesurau addasu hinsawdd lleol y sector cyhoeddus.

Rhaglen Ddatgarboneiddio

Cyllid i ddatblygu iteriad nesaf Cynllun Cyflawni Cymru Sero Net a fydd yn manylu ar sut rydym yn bwriadu cyrraedd targedau lleihau allyriadau a'n Cyllideb Garbon. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth a dadansoddiad i ddatblygu llwybrau datgarboneiddio; datblygu a gweithredu polisïau gan gynnwys Fframwaith Pontio Teg; a chyfraniad Cymru i ariannu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar addasu a lliniaru. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys costau staff, datblygu, hyfforddiant a T&S.

Arloesedd Datgarboneiddio / Byw'n Glyfar

Yn cynnwys cymorth technegol a dadansoddol ar gyfer datblygu atebion arloesol a system gyfan i broblemau seiliedig ar leoedd. Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar seilwaith a thechnoleg aml-ffynhonnell ynni ac amlsector, prosesau a systemau sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol cyhoeddus, preifat ac academaidd.

Cynllun Masnachu Allyriadau a Phrisio Carbon

Cyllid i weithredu rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru fel rhan o Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau y DU. Mae'r rhain yn cynnwys costau ar gyfer cynnal a datblygu'r system TG, ymchwil a chyfieithu. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys costau staff sy'n gysylltiedig ag ehangu a gwella Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU ymhellach. Os bydd cyllid yn caniatáu, bydd ymchwil gynnar yn cael ei chomisiynu i ddeall ym mha sectorau y gallai signal prisio carbon fod o gymorth wrth gyrraedd ein targedau lleihau carbon hirdymor.

Rhaglen Newid Ymddygiad sy'n cael ei arwain gan yr Hinsawdd

Cyllid i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch yr Hinsawdd, gan gynnwys ymgysylltu (drwy weithdai Wythnos Hinsawdd Cymru a Sgyrsiau Hinsawdd) gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol i'w cynnwys wrth lunio'r atebion polisi cywir, ymchwil gymdeithasol i adeiladu ein dealltwriaeth ynghylch y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu a'r cymhellion ynghylch gwneud dewisiadau gwyrdd, a chyfathrebu cenedlaethol parhaus (ffocws digidol), a gwelliannau i hwb digidol gweithreduarhinsawdd.llyw.cymru er mwyn annog gweithredu ar newid hinsawdd

Gweithredu Hinsawdd Rhyngwladol

Aelodaeth o grwpiau sy'n cynrychioli gwladwriaethau a rhanbarthau is-genedlaethol, gan gynnwys Cynghrair Dan2, er mwyn galluogi Cymru i leisio ei llais ar y llwyfan rhyngwladol, gan gynnwys yn COP.

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru

# Memorandwm ar Gynigion Cyllideb Ddrafft 2025-26 ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Trafnidiaeth

## Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am y cynigion Trafnidiaeth yn y gyllideb fel yr amlinellir hwy yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hefyd am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

# Cynnwys

**Y Cyd-destun Strategol** .......... 4

**Adnoddau** .......... 5

**Cyfalaf** .......... 7

**Themâu trawsbynciol** .......... 8

**Deddfwriaeth** .......... 10

**Newid Hinsawdd** .......... 11

**Trafnidiaeth** .......... 12

1 Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol .......... 11
2 Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth .......... 12
3 Trafnidiaeth Gyhoeddus .......... 16
4 Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol .......... 18
5 Y Lluoedd Arfog .......... 18

# Y Cyd-destun Strategol

## Yng nghyd-destun blaenoriaeth y Cabinet newydd, Cysylltu Cymunedau, mae fy nghyllideb drafnidiaeth wedi'i datblygu ar sail y blaenoriaethau a ganlyn:

1. Cynnal a chadw gwasanaethau rheilffyrdd a chwblhau Llinellau Craidd y Cymoedd.

2. Gwella diogelwch a gwytnwch y rhwydwaith ffyrdd strategol drwy adnewyddu 100km o ffyrdd ychwanegol sydd mewn cyflwr gwael (tyllau), a gwneud cynnydd mewn perthynas ag adnewyddu asedau mawr.

3. O ran bysiau, datblygu gwasanaethau, y fflyd, a'r seilwaith ar gyfer masnachfreinio.

4. Parhau i gefnogi datblygiad Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a chyflawni cynlluniau lleol.

Er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Prif Weinidog, bu cynnydd cyffredinol o £33m mewn refeniw yn ystod 24/25 (heb gynnwys ymrwymiadau ychwanegol model buddsoddi cydfuddiannol yr A465 o tua £32m i'w dalu o'r cyllid canolog a menter fenthyca Llywodraeth Leol sy'n werth £5m). Ar yr ochr gyfalaf, bu cynnydd o £51m i gefnogi cwblhau Llinellau Craidd y Cymoedd, gwella'r rhwydwaith ffyrdd strategol, a chynnal grantiau i awdurdodau lleol.

# Adnoddau

## Mae’r newidiadau a wnaed yn dilyn Cyllideb Derfynol Ddangosol 2025-26 ym mis Chwefror 2024 (wedi’u hailddatgan i gyfrif am y newidiadau i bortffolios) fel a ganlyn:

| **Symudiadau adnoddau** | **Cynlluniau ar sail Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2025-26 Rhagfyr 2024** |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau Cyllidol | | | |
| 3830 – Datblygu Seilwaith Strategol | 950 | 0 | 950 |
| Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd | 59149 | 58758 | 117907 |
| 1884 – Taliadau Contractiol y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 9681 | 48176 | 57857 |
| 1885 – Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 49468 | 10582 | 60050 |
| Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr | 391549 | -6749 | 384800 |
| 1883 – Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol | 4172 | -72 | 4100 |
| 1890 – Gwasanaethau Rheilffyrdd Rheng Flaen | 600 | -600 | 0 |
| 1895 – Cymorth i’r Gwasanaeth Rheilffyrdd | 386777 | -6077 | 380700 |
| Teithio Cynaliadwy | 125202 | 22298 | 147500 |
| 1880 – Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 123337 | 9163 | 132500 |
| 1882 – Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol | 0 | 7800 | 7800 |
| 2030 – Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | 1865 | 5335 | 7200 |
| 1892 – Diogelwch ar y Ffyrdd | 5000 | -5000 | 0 |
| 1250 – Y Lluoedd Arfog | 20 | 350 | 370 |
| | 581870 | 69657 | 651527 |
| Adnoddau Anghyllidol | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1886 – Gweithrediadau Rhwydwaith (nad ydynt yn Arian Parod) | 188691 | 0 | 188691 |
| 1886 – Trafnidiaeth Cymru (nad ydynt yn Arian Parod) | 38000 | 0 | 38000 |
| | 226691 | 0 | 226691 |
| CYFANSWM Y CYLLIDEBAU ADNODDAU | 808561 | 69657 | 878218 |

Mae'r prif newidiadau'n ymwneud â'r canlynol:

- BEL 1884 - Arian ychwanegol ar gyfer prosiect model buddsoddi cydfuddiannol contractiol yr A465 a dyraniadau ychwanegol ar gyfer rheoli ffyrdd
- BEL 1885 - Dyraniad ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd
- BEL 1895 - Dyraniad ychwanegol ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru/BEL 1890 wedi'i uno
- BEL 1880 - Dyraniad ychwanegol ar gyfer cymorth bysiau statudol
- Ailstrwythuro BEL 1882, 2030 ac 1892/Arian ychwanegol ar gyfer menter fenthyca'r llywodraeth
- BEL 1250 - Cefnogaeth ar gyfer Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog

# Cyfalaf

## Mae'r newidiadau i Gyllideb Derfynol Ddangosol 2025-26 ym mis Chwefror 2024 (wedi'i hailddatgan i gyfrif am y newidiadau i bortffolios) fel a ganlyn:

| Symudiadau Cyfalaf | Cynlluniau ar sail Cyllideb Derfynol 2024-25 a Ailddatganwyd ym mis Medi 2024 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2025-26 Rhagfyr 2024 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| 3830 – Datblygu Seilwaith Strategol | 5000 | 0 | 5000 |
| 1885 - Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 185300 | 1100 | 186400 |
| 1895 – Cymorth i'r Gwasanaeth Rheilffyrdd | 95497 | 86100 | 181597 |
| *Teithio Cynaliadwy* | 188000 | -32200 | 155800 |
| 1880 – Cymorth i'r Gwasanaeth Bysiau | 68000 | -37000 | 31000 |
| 1882 - Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol | 40000 | 80000 | 120000 |
| 2030 – Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | 80000 | -75200 | 4800 |
| 1892 – Diogelwch ar y Ffyrdd | 4000 | -4000 | 0 |
| CYFANSWM Y CYLLIDEBAU CYFALAF | 477797 | 51000 | 528797 |

Mae'r prif newidiadau'n ymwneud â'r canlynol:

- BEL 1895 - Arian ychwanegol ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd/Llinellau Craidd y Cymoedd
- BEL 1880 - Proffil wedi'i addasu ar gyfer seilwaith bysiau
- Ailstrwythuro a llinellau gwariant 1882, 2030 ac 1892

# Themâu trawsbynciol

Gwariant Ataliol

Mae'r cynigion cyllidebol hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cyn belled ag y bo modd. Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut y defnyddiwn ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â'r blaenoriaethau, mae gennym brosesau sydd wedi'u sefydlu'n dda ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion y'u bwriadwyd.

Defnyddir metrigau penodol i werthuso rhaglenni cymorth, fel y nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru er enghraifft.

Cyfeirir at yr asesiad a gwerth am arian isod.

Llunio polisi ar sail tystiolaeth

Mae tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau'n ategu ein penderfyniadau ariannol, fel ymchwil wedi'i chyhoeddi, ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwerthusiadau o bolisïau blaenorol ac ystadegau. Mae'r dystiolaeth yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau, a cheir rhai enghreifftiau yma:

Mae Trafnidiaeth Cymru yn diweddaru ac yn cyhoeddi ar ein rhan ddata monitro a gwerthuso ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Defnyddir y data i olrhain cynnydd yn erbyn cyflawni'r blaenoriaethau a'r dyheadau ac i nodi unrhyw feysydd lle y bydd angen gwneud ymyriadau pellach o bosibl i gyrraedd ein targedau. Mae hyn yn rhan o'r gwaith ehangach y mae'r uned ddadansoddi yn Trafnidiaeth Cymru yn ei wneud ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o asesu polisïau a chynlluniau i gyflawni ein dyheadau cyffredin a'n dyletswyddau statudol gan ddefnyddio dulliau casglu a chyfuno data wedi'u teilwra a modelau trafnidiaeth ledled Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb ddrafft yn dangos sut rwyf wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Ystyriwyd y tueddiadau presennol a'r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol a'u heffaith bosibl yn y tymor byr, yn y tymor canolig ac yn yr hirdymor.

## Asesiad Cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant

Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, rwyf wedi mabwysiadu dull integredig ar gyfer asesiadau effaith, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n parhau i fod yn sbardun pwysig i'n hystyriaethau o ran y Gyllideb.

Mae fy Nghyllideb yn nodi effaith penderfyniadau gwario, gan gynnwys amlygu penderfyniadau gwario sy'n cael effaith uniongyrchol ar ein rhanddeiliaid. Mae hyn wedi'i ategu gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, sy'n amlinellu'r dystiolaeth a'r effeithiau strategol sydd wedi cefnogi'r penderfyniadau gwario.

# Deddfwriaeth

Bydd deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno y flwyddyn nesaf a fydd yn diwygio'r ffordd y darperir gwasanaethau bysiau, a fydd yn caniatáu i gyrff cyhoeddus gydweithio i gynllunio a darparu'r rhwydwaith bysiau lleol sydd ei angen ar bobl Cymru. Ni fydd gan y ddeddfwriaeth hon unrhyw oblygiadau cyllidebol arwyddocaol yn 2025/26, er bod cynnydd yn y gyllideb fysiau i helpu i gynnal y rhwydwaith presennol cyn i'r gwaith diwygio ddechrau yn 2027.

# Newid Hinsawdd

Mae'r Gyllideb ddrafft yn cefnogi fy ffocws ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth yn unol â'n polisïau Sero Net Cymru. Bydd buddsoddiadau yn y seilwaith gwefru cerbydau trydan yn cefnogi'r newid i geir a faniau di-allyriadau a bydd cyllid ar gyfer bysiau di-allyriadau yn darparu gwasanaethau glanach wedi'u moderneiddio. Bydd fy muddsoddiadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn annog newid i ddulliau teithio cynaliadwy. Bydd dyraniadau refeniw yn cefnogi datblygiad polisïau lleihau carbon ar sail tystiolaeth ar gyfer Cyllideb Garbon 3.

# Trafnidiaeth

1 Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

Refeniw

a. Taliadau Contractiol y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (£57.857m)

Rwyf wedi creu llinell newydd yn y gyllideb i gael gwared ar elfen gweithredu a chynnal a chadw y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol o'r taliadau sy'n ofynnol ar gyfer ymrwymiadau contractiol:-

- Mae taliadau dylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu'r A55 yn parhau tan 2028. Rhagwelir y bydd yr ad-daliad yn £18m ar gyfer 2025/26.
- Ymrwymiad Tollau Cleddau o £3m y flwyddyn ac yn cael ei dalu tan 2039.
- Cost Ad-dalu Gwasanaethau Blynyddol Model Buddsoddi Cydfuddiannol Rhan 5 a 6 o'r A465 o £36.857m

Mae pob un o'r uchod yn rhwymedigaethau contractiol ymrwymedig.

b. Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (£60.050m)

Cyfanswm gofyniad refeniw y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yw £81.230m yn 25/26 (heb gynnwys yr ad-daliadau ar gyfer Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465). Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r ôl-groniad cynnal a chadw sylweddol a blaenoriaeth y Prif Weinidog i drwsio ffyrdd.

Mae angen yr arian i weithredu a chynnal a chadw'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol o ddydd i ddydd ledled Cymru. Mae'r costau yn cwmpasu'r dyletswyddau statudol o dan Lawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru, y trefniadau o dan Gytundeb Asiantau Rheoli Llywodraeth Cymru ar gyfer y ddau asiant cefnffyrdd ynghyd â gwasanaethau Swyddogion Traffig Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu ar ffyrdd prysur allweddol yng ngogledd a de Cymru.

Cyfalaf

c. Gweithrediadau ac adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (£186.4m)

Mae'r cynnydd mewn refeniw yn caniatáu defnydd mwy effeithlon o gyllidebau cyfalaf a bydd yn cefnogi cynnydd sylweddol ar gyfer y gwaith o gynnal a chadw'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, sydd ei angen i gyflawni ymrwymiadau statudol Gweinidogion Cymru. Fel rhan o hyn, rwy'n creu cronfa gwella ffyrdd a fydd yn caniatáu gwelliannau i hyd at 100km o'r rhwydwaith (lleihau ac atal tyllau) a dyma gam cyntaf mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran cyflwr y ffyrdd.

2 Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth

Rwyf wedi ad-drefnu'r cyllidebau sy'n cefnogi buddsoddiad trafnidiaeth awdurdodau lleol a'n polisïau trafnidiaeth cenedlaethol. Mae hyn yn effeithio ar y llinellau yn y gyllideb a ddisgrifiwyd yn flaenorol fel 'Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol', 'Teithio Cynaliadwy a Llesol' a 'Diogelwch ar y Ffyrdd'. Yn y dyfodol, bydd y llinell 'Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol' yn y gyllideb yn cwmpasu buddsoddiad gan awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru i gefnogi cyflawniad y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Bydd y llinell 'Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol' yn y gyllideb yn cwmpasu'r gwariant ar bolisi trafnidiaeth cenedlaethol.

Refeniw

a. Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol (£7.2m)

Y flwyddyn nesaf, rwy'n cynyddu'r dyraniad refeniw sy'n gysylltiedig â'r strategaeth drafnidiaeth yn y gyllideb o £6.9m i £7.2m i wella'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer diogelwch, datgarboneiddio, polisi a thystiolaeth mewn perthynas â ffyrdd.

b. Trafnidiaeth Ranbarthol (£7.8m)

Mae'r arian ar gyfer Trafnidiaeth Ranbarthol yn cynnwys £2.8m o gyllid ar gyfer awdurdodau lleol i gynnal hyfforddiant diogelwch ar y ffyrdd ac ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig i barhau'r gwaith ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, rydym wedi dyfarnu £225,000 i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig tuag at ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae'r Cyd-bwyllgorau wedi gwneud cynnydd da o ran y Cynlluniau hyn ac mae disgwyl iddynt ymgynghori arnynt ar ddechrau 2025. Bydd y cyllid ar gyfer Trafnidiaeth Ranbarthol yn caniatáu cyfraniad pellach tuag at waith y cyd-bwyllgorau ar eu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Mae adnodd cyllid ychwanegol o £5m yn cael ei ddyrannu i Brif Grŵp Gwariant Trafnidiaeth yn 25-26 ar gyfer menter fenthyca llywodraeth leol a fydd yn galluogi Awdurdodau Lleol i fenthyca hyd at £60m i fynd i'r afael â thyllau a chefnogi gwaith cynnal a chadw arall ar eu rhwydweithiau ffyrdd lleol.

Mae dyraniadau ar gyfer grantiau awdurdodau lleol yn ddibynnol ar y ceisiadau a ddaw i law gan awdurdodau lleol, sydd i'w cyflwyno erbyn 20 Rhagfyr ac a fydd yn cael eu hasesu ddechrau 2025. Nodir yr wybodaeth ddiweddaraf (gwariant a dyraniadau'r flwyddyn bresennol) ar gyfer yr holl gynlluniau grant ar wahân i'r Gronfa Teithio Llesol (a gwmpesir ar wahân) isod:

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Trafnidiaeth Leol – cyfalaf | 53,011,591 | 48,622,595 | 17,635,108 | 20,944,956 | 23,065,289 | Cyfran o c£100m |
| Y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol - cyfalaf | 3,686,410 | | | | | |
| Y Gronfa Ffyrdd Cydnerth – cyfalaf | 18,836,877 | 17,933,248 | 4,600,474 | 7,392,692 | 9,073,000 | Cyfran o c£100m |
| Ffyrdd heb eu Mabwysiadu – cyfalaf | | 1,307,172 | | 458,328 | | Cyfran o c£100m |
| Covid 19 – cyfalaf | 12,743,431 | 1,030,000 | | | | |
| Y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn – cyfalaf | | | 1,593,784 | 6,678,336 | 6,589,213 | Cyfran o c£100m |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelwch ar y Ffyrdd - cyfalaf | 3,925,722 | 2,770,002 | 1,024,138 | | 3,553,177 | Cyfran o c£100m |
| Diogelwch ar y Ffyrdd – refeniw | 628,520 | 2,028,539 | 1,326,091 | 1,630,356 | 1,597,645 | Hyd at £2m |
| 20MYA – cyfalaf | | 435,673 | 7,913,628 | 21,318,995 | 7,432,131 | Cyfran o c£100m |
| 20MYA - refeniw | | 1,365,372 | | | | |
| Cyfanswm | 92,832,551 | 9,436,575 | 34,093,223 | 58,423,663 | 51,310,455 | I'w gadarn-hau |

| Gwariant Teithio Llesol (dyraniadau'r flwyddyn bresennol) – cyfanswm | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
| Cyfanswm £ | 49,717,860 | 64,007,369 | 56,970,829 | 59,658,715 | 65,282,338 | I'w gadarn-hau |
| Poblogaeth* | 3,169,586 | 3,131,640 | 3,131,640 | 3,131,640 | 3,131,640 | 3,131,640 |
| Cyfanswm y pen | £15.69 | £20.19 | £18.19 | £19.05 | £20.85 | I'w gadarn-hau |

Seilwaith gwefru cerbydau trydan

Mae'r cynlluniau terfynol ar gyfer y seilwaith gwefru cerbydau trydan yn 2025-26 yn cael eu cwblhau o hyd. Bydd y rhain yn cynnwys cwblhau cam 1 gosod seilwaith cerbydau trydan mewn gorsafoedd rheilffordd a dechrau cam 2. Maent hefyd yn debygol o gynnwys rhaglen hyfforddi i uwchsgilio staff awdurdodau lleol, y gwaith blynyddol o gynnal a chadw'r seilwaith presennol ar y rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd strategol a gwaith i dargedu ardaloedd ar gyfer safleoedd gwefru cerbydau trydan gan ddefnyddio dull ar sail tystiolaeth.

Nodir cyllid y blynyddoedd blaenorol ar gyfer y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn a grantiau eraill i awdurdodau lleol isod.

| **Dyraniadau grant cyfalaf awdurdodau lleol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
| Y Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn | Dim | Dim | 1,593,784 | 6,678,336 | 6,589,213 | Cyfran o c£100m |
| Trafnidiaeth Leol | 53,011,591 | 48,622,595 | 17,635,108 | 20,944,956 | 23,065,289 | Cyfran o c£100m |
| Y Gronfa Ffyrdd Cydnerth | 4,141,501 | 6,554,231 | 3,458,343 | 4,727,367 | 6,149,338 | Cyfran o c£100m |
| Ffyrdd heb eu Mabwysiadu | Dim | 1,307,172 | Dim | 458,328 | 989,487 | Cyfran o c£100m |
| Y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd | 3,925,722 | 2,770,002 | 1,024,138 | Dim | 3,553,177 | Cyfran o c£100m |
| Gweithredu 20MYA | Dim | 435,673 | 7,913,628 | 21,318,995 | 7,432,131 | Cyfran o c£100m |

3 Trafnidiaeth Gyhoeddus

Trafnidiaeth Cymru

Mae'r dyraniadau yn y gyllideb ddrafft yn seiliedig ar ddrafft cyntaf rhagolygon Trafnidiaeth Cymru ar gyfer 25-26 a ddatblygwyd dros yr haf. Dyma'r cynharaf rydym wedi derbyn amcangyfrif o'r brig i lawr cychwynnol Trafnidiaeth Cymru o'r costau a ragwelir ar gyfer y dyfodol ac mae'n ganlyniad i ymdrechion sylweddol ar draws y naill sefydliad a'r llall i alinio prosesau pennu cyllidebau. Gwnaed gwaith pellach ers hynny ac mae dwy sesiwn herio gyda thîm gweithredol Trafnidiaeth Cymru wedi'u trefnu ddechrau mis Rhagfyr i'w holi a'u herio ymhellach ynghylch tybiaethau o ran cost ac incwm. Bydd dogfennau llawn y gyllideb yn cael eu hadolygu a'u darparu i

Lywodraeth Cymru ddechrau mis Ionawr. Byddai'n gynamserol, felly, i ddarparu dadansoddiad manylach o ddyraniad cyllideb llawn Trafnidiaeth Cymru ar gyfer 25/26, ond byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth sydd ar gael cyn sesiwn graffu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ym mis Ionawr.

Refeniw

a. Cymorth i'r Gwasanaeth Rheilffyrdd (£380.700m)

Yn dilyn cytundeb â Thrysorlys EF, bu cynnydd yn y gyllideb reilffyrdd eleni o £18.72m i gefnogi'r gwaith o weithredu, cynnal a chadw ac adnewyddu Llinellau Craidd y Cymoedd. Unwaith y rhoddir cyfrif am y cynnydd hwn ac yn dilyn gwaith craffu a herio parhaus ar gyllideb Trafnidiaeth Cymru, bydd gostyngiad o £7.7m yn y gyllideb refeniw i gefnogi gweithrediadau rheilffyrdd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â Metro De Cymru. Mae hyn yn cynnwys tua £10m i Trafnidiaeth Cymru i leihau costau a chynyddu refeniw. [Yn dilyn y digwyddiad ar y rhwydwaith rheilffyrdd yn Nhalerddig, er nad oes unrhyw arwydd ar hyn o bryd y bydd angen cyllid ychwanegol, mae posibilrwydd y bydd effaith ar y gost o gynnal a chadw cerbydau rheilffyrdd neu brynu rhai newydd.]

Mae'r cyllid refeniw rwyf wedi'i ddyrannu'n caniatáu ar gyfer darparu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau gan Trafnidiaeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Fel rhan o hyn, bydd Trafnidiaeth Cymru'n parhau i gyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu. Bydd yn gorffen darparu'r cerbydau rheilffyrdd newydd sbon sydd eisoes yn darparu trenau newydd, cyflymach a mwy cyfforddus yn ogystal â gwella gwytnwch y gwasanaethau a weithredir gan y fasnachfraint reilffyrdd, gan wella perfformiad i gwsmeriaid yn sgil hynny.

b. Cymorth i'r Gwasanaeth Bysiau (£132.5m)

Mae lefelau priodol o arian ar gyfer rhwydweithiau bysiau yn allweddol wrth i ni gynllunio ar gyfer masnachfreinio bysiau drwy'r Bil Bysiau arfaethedig, i sicrhau nad yw gwasanaethau'n cael eu colli. Mae'r gyllideb fysiau wedi aros yr un fath yn nhermau arian parod am sawl blwyddyn ond rwyf bellach yn gallu dyrannu £9m ychwanegol i liniaru costau ychwanegol gwasanaethau, a'r cynllun tocynnau teithio rhatach ar sail galw.

Yn 2024-25, sefydlwyd y Grant Rhwydwaith Bysiau i ariannu awdurdodau lleol i sicrhau'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol yn eu tyb hwy. Mae'r cynllun cyllido hwn yn eistedd ochr yn ochr â'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau hirsefydlog. Bydd y naill a'r llall yn parhau yn 2025/26, yn ogystal â'r cymorth ar gyfer y

sector Trafnidiaeth Gymunedol. Byddaf hefyd yn parhau i ddarparu cyllid i Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y gwaith o baratoi ar gyfer masnachfreinio, rheoli rhwydwaith Trafnidiaeth Cymru, Gwasanaethau Fflecsi, a darparu gwybodaeth am amserlenni drwy Traveline Cymru.

Cyfalaf

c. Cymorth i'r Gwasanaeth Rheilffyrdd (£181.597m)

Bydd ein buddsoddiad parhaus ym Mhrosiect Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn darparu rhwydwaith rheilffyrdd gwirioneddol fodern, sy'n gweithredu trenau trydan glân yn ddi-eithriad ar y seilwaith o'n heiddo. Bydd yn newid y ffordd y mae pobl yn teithio drwy wella amserau teithio ac amlder gwasanaethau, gan annog mwy o bobl i ddefnyddio'r rheilffyrdd. Yn ogystal, mae'r buddsoddiad yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wneud y system trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl anabl drwy sicrhau bod gan orsafoedd fynediad heb risiau a mynediad gwell ar gerbydau rheilffyrdd newydd. Fy mlaenoriaeth felly yw cefnogi cwblhau'r prosiect Llinellau Craidd y Cymoedd trawsnewidiol ac rwyf wedi dyrannu £181.6m i gyllideb gyfalaf y rheilffyrdd (gan gynnwys elfennau nad ydynt yn ymwneud â Llinellau Craidd y Cymoedd).

ch. Cymorth i'r Gwasanaeth Bysiau (£31m)

Rwy'n cefnogi llunio camau pellach ar gyfer cyllidebau cyfalaf bysiau drwy ddyraniad o £31m y flwyddyn nesaf, gan gynnwys prynu bysiau newydd. Mae hyn wedi caniatáu i mi flaenoriaethu blaenoriaethau'r Cabinet.

4 Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol

Refeniw

a. Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol (£4.1m)

Mae'r gyllideb hedfanaeth wedi'i hailenwi'n gyllideb Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol i adlewyrchu fy nyraniadau arfaethedig i gefnogi'r sector cludo nwyddau, y sector morol, casglu data a dadansoddi, yn ogystal â'r gwaith parhaus ar ddyfodol Maes Awyr Caerdydd.

5 Y Lluoedd Arfog

Refeniw

a. Y Lluoedd Arfog (£0.37m)

Rwyf wedi cynyddu cyllideb y Lluoedd Arfog y flwyddyn nesaf i barhau i gefnogi Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog a Diwrnod Lluoedd Arfog Cymru.

Rhagor o dystiolaeth i Bwyllgor CCEI ar ddyraniadau cyllideb TrC 25/26

Mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn seiliedig ar ddrafft cyntaf rhagolygon TrC ar gyfer 25-26 a ddatblygwyd dros yr haf. Dyma'r cynharaf erioed i ni dderbyn amcangyfrif cychwynnol o'r brig i'r gwaelod gan TrC o gostau disgwyliedig y flwyddyn i ddod ac mae'n ganlyniad ymdrechion sylweddol gan y ddau sefydliad i alinio prosesau pennu cyllidebau.

Mae rhagor o waith wedi'i wneud ers hynny a chynhaliwyd deuddydd o sesiynau herio gyda thîm gweithredol TrC yn gynnar ym mis Rhagfyr i holi a herio'r rhagdybiaethau o ran costau ac incwm yn ail fersiwn eu cyllideb. Bydd canlyniad y sesiynau hyn yn llywio fersiwn nesaf y gyllideb ym mis Ionawr cyn cyhoeddi llythyr cyllido blynyddol Llywodraeth Cymru law yn llaw â chynllun busnes TrC ar gyfer 25-26 cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Dylid nodi, hyd at y flwyddyn ariannol ddiwethaf, bod cyllid ar gyfer gweithrediadau, gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu (OMR) y rhwydwaith CVL wedi'i ariannu trwy drosglwyddiadau o'r Adran Drafnidiaeth i gyllidebau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Yn dilyn diwedd y trefniant dros dro hwn, cafodd y cyllid hwn am y tro cyntaf ei gynnwys y flwyddyn ariannol hon yng nghymorth bloc Llywodraeth Cymru a'i gynnwys wedyn yng nghyllidebau refeniw a chyfalaf trafnidiaeth Llywodraeth Cymru eleni.

## Y Cyllidebau Refeniw

| **Dyraniad BEL Refeniw TrC (£m)** | | |
|---|---|---|
| **Llinell Wariant y Gyllideb** | | **Cyllideb 25/26** |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffordd | 1895 | 380.2 |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 1880 | 13.0 |
| Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol | 1883 | 2.1 |
| | **C'swm** | **395.3** |

Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffordd - BEL 1895

Yn dilyn y cynnydd yn y gyllideb y flwyddyn ariannol hon, mae cyllideb y flwyddyn nesaf yn weddol wastad (yn dilyn ailddyrannu rhai eitemau i BEL 1883 a ddisgrifir isod). Mae hyn yn dilyn craffu manwl ar gyllideb rhagolwg TrC a gosod £10m o her i TrC gynyddu refeniw tocynnau a lleihau costau o'u cymharu â'r rhagolygon cychwynnol. Mae profiad eleni yn awgrymu bod gosod targedau cyllidebol realistig ond heriol yn annog rheolaeth ariannol ac arferion masnachol darbodus a hyd yn oed yn fwy o ymrwymiad a diwylliant i gynyddu refeniw a lleihau costau. Nid yw'r gwerthoedd yn y tabl hwn yn cynnwys y dyraniad cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU a ragwelir o tua £20.2m ar gyfer ffioedd mynediad i drac a gwasanaethau yn Lloegr yn unig. Nid ydynt wedi'u pennu eto.

Flwyddyn ariannol nesaf, bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ar drawsnewid y CVL, trenau cysylltiedig a gwasanaethau 'troi i fyny a mynd' newydd wedi'u cwblhau. O ganlyniad, disgwyliwn y bydd llai o ofyn am gymhorthdal yn y blynyddoedd i ddod.

Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bws – BEL 1880

Bydd y cyllid hwn yn cefnogi Trafnidiaeth Cymru i baratoi ar gyfer masnachfreinio, ariannu a rheoli rhwydwaith TrawsCymru, gwasanaethau Fflecsi a darparu gwybodaeth amserlen drwy Traveline Cymru.

Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol – BEL 1883

Bydd cyllid ar gyfer uned ddadansoddi a rhaglen secondeion TrC yn cael ei ddyrannu o'r gyllideb Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol. Mae'r ddwy'n cefnogi gwaith ar draws y portffolio trafnidiaeth. Arferid ariannu'r eitemau hyn drwy'r gyllideb cymorth rheilffyrdd.

**Cyllidebau Cyfalaf**

| **Dyraniad BEL Cyfalaf TrC (£m)** | | |
|---|---|---|
| **Llinell Wariant y Gyllideb** | | **Cyllideb 25/26** |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | 1895 | 181.6 |
| Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 1880 | 31.0 |
| Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol | 1882 | I'w gadarnhau * |
| Gweithrediadau ac Adnewyddu SRN | 1885 | 1.6 |
| | **C'swm** | **I'w gadarnhau** |

*Mae'r cyfanswm sydd ar gael ar gyfer grantiau awdurdodau lleol wedi cael ei gadw ar yr un lefel ag yn 24-25 ond nid yw gwerth grantiau teithio llesol, sy'n cael eu rheoli a'u monitro ar ran Llywodraeth Cymru gan TrC, wedi'i bennu eto.

Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd – Rheilffyrdd – BEL 1895

Mae £181.6m wedi'i ddyrannu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i gyfalaf rheilffyrdd, sy'n cynnwys parhau â'r buddsoddiad i drawsnewid a chynnal Llinellau Craidd y Cymoedd, a darparu'r cerbydau newydd ar gyfer y rhwydwaith.

Cymorth Gwasanaethau Bws - BEL 1880

Bydd y gyllideb cyfalaf bysiau yn cael ei defnyddio i baratoi ar gyfer masnachfreinio gan gynnwys prynu bysiau newydd a seilwaith cysylltiedig, a sefydlu prosiect braenaru ar gyfer bysiau hydrogen. Bydd hyn yn cefnogi gwasanaethau bws cost-effeithiol a deniadol ac yn cyfrannu at ddatgarboneiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth.

Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol

Mae'r BEL hon yn cynnwys cyllid i awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru ddatblygu a darparu cynlluniau lleol. Mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael ar gyfer grantiau i awdurdodau lleol wedi'i gadw ar lefelau 24-25. Mae cynlluniau grant yn cynnwys y Gronfa Teithio Llesol, y Gronfa Trafnidiaeth Leol, y Gronfa Ffyrdd Gwydn, seilwaith gwefru cerbydau trydan, Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a Diogelwch ar y Ffyrdd. Nid yw gwerth grantiau teithio llesol, sy'n cael eu rheoli a'u monitro ar ran Llywodraeth Cymru gan TrC, wedi'i bennu eto a bydd yn seiliedig ar gryfder ceisiadau awdurdodau lleol, gan ystyried barn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig cyn datganoli penderfyniadau drwy gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol yn y dyfodol.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**–**
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

27 Tachwedd 2024

Annwyl Huw,

Diolch ichi am eich ymateb adeiladol i adroddiad y Pwyllgor ar "Adfer safleoedd glo brig" a'ch cyfraniad at y ddadl ar yr adroddiad ar 13 Tachwedd. Roeddwn am ysgrifennu atoch yn sgil y ddadl i godi sawl cwestiwn ar faterion na wnaethoch ymdrin â hwy yn eich ymateb, ac i dynnu eich sylw at wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor mewn ymateb i'r Adroddiad.

Mae'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan gyfranwyr wedi'i hatodi'n llawn i'r llythyr hwn. Mae'n cynnwys cyflwyniadau gan breswylwyr Margam ac Abertawe y mae datblygiadau glo brig yn effeithio arnynt. Ceir crynodeb isod o'r materion a godwyd gan y ddwy set o breswylwyr:

Ariannu Gwaith Adfer ac Atebolrwydd: Mae'r ddwy set o breswylwyr yn pwysleisio'r angen am gyfrifon ysgrow blynyddol ar gyfer safleoedd diwydiannol i sicrhau eu bod yn cael eu hadfer yn llawn ac i atal cwmnïau rhag osgoi rhwymedigaethau ar ôl iddynt roi'r gorau i weithredu.

Gorfodi Cynlluniau Adfer Gwreiddiol: Yn aml, nid yw ymrwymiadau o ran gwaith adfer a gymeradwywyd yn cael eu gorfodi, gyda safleoedd fel Gorllewin Parc Slip a Phwll y Dwyrain yn cael eu gadael wedi'u hadfer yn rhannol. Mae hyn yn arwain at effeithiau amgylcheddol a chymunedol parhaus.

Ymsuddiant a Difrod Strwythurol: Bu achos o ddifrod difrifol i gartref oherwydd ymsuddiant ger Pwll y Dwyrain, sy'n pwysleisio'r angen i ddiogelu eiddo lleol.

Risgiau Diogelwch Gwagleoedd sy'n Llawn Dŵr ar Safleoedd Mwyngloddio: Mae'r ffaith bod cymaint o ddŵr heb ei reoleiddio ar hen safleoedd mwyngloddio, gan gynnwys Pwll y Dwyrain, yn peri risg o lifogydd, yn enwedig mewn ardaloedd ger ffawtlinau. Mae angen asesiadau priodol gan beirianwyr a hydrolegwyr i liniaru'r risgiau hyn.

Pryderon o ran Iechyd a'r Amgylchedd: Mae llygredd o safleoedd glo brig, gan gynnwys deunydd gronynnol a halogiad dŵr, yn peri risgiau iechyd hirdymor. Mae angen protocolau monitro clir i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael cyflwyniad gan Mr Manus Molloy, sydd am nodi ei gefnogaeth i'r datblygiad yn Ffos-y-Fran ac egluro'r agweddau cadarnhaol ar y datblygiad. Roedd Mr Molloy yn gweithio yn Ffos-y-Fran yn ystod camau un a dau ac roedd hefyd yn aelod o'r pwyllgor cyswllt lleol ar gyfer y safle. Mae'n pwysleisio bod cryn dipyn o waith adfer eisoes wedi'i gyflawni o ganlyniad i'r datblygiad. Mae Mr Molloy wedi darparu copïau caled o sawl dogfen i ategu ei safbwynt, a gall Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor ddarparu copïau ohonynt ar gais.

Roeddwn hefyd am fynd ar drywydd sawl mater na wnaethoch roi sylw iddynt yn eich ymateb i'r ddadl.

1. Fel y dywedais i a chyfranwyr eraill yn ystod y ddadl, mae preswylwyr wedi mynegi rhwystredigaeth ynghylch cael eu trosglwyddo o un corff cyhoeddus i'r llall o hyd. Gwn eich bod wedi egluro'r llinellau atebolrwydd yn eich ymateb, ond fel y dywedais yn ystod y ddadl, ni chredaf fod hyn yn mynd i'r afael â chraidd y broblem. Os yw preswylydd o'r farn nad yw corff cyhoeddus neu weithredwr y safle yn cyflawni ei rwymedigaethau'n briodol, at bwy y gall droi?

2. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu'r cyllid o £25 miliwn ar gyfer diogelwch tomenni glo gan Lywodraeth y DU?

3. Dywed Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomenni Glo, "Er mwyn cefnogi'r rhaglen diogelwch tomenni glo, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £44.4 miliwn dros y tair blynedd nesaf i helpu'r awdurdodau lleol i wneud gwaith cynnal a chadw ac adweirio ar domenni glo". Yng ngoleuni hyn, pa mor fodlon ydych chi â'r swm o £25 miliwn a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU?

4. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am ragor o gyllid ar gyfer diogelwch tomenni glo?

5. A allwch roi rhagor o fanylion am fwriad Llywodraeth Cymru i ddatblygu "dull strategol... o ymdrin ag etifeddiaeth lofaol a diwydiannol Cymru", gan gynnwys amcanion penodol, amserlenni, ac adnoddau arfaethedig?

6. A wnaiff Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod datblygiadau arfaethedig ar gyfer adfer tomenni glo yn ymgorffori'n benodol y gwersi a ddysgwyd o safleoedd fel Ffos-y-Fran?

7. Yng ngoleuni'r cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer datblygiadau i adfer tomenni glo, pa fodelau ychwanegol ar gyfer rhannu buddion cymunedol fydd yn cael eu hystyried os nad yw perchnogaeth gymunedol yn ymarferol?

8. A allwch egluro sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac adolygu'r angen am newidiadau posibl i MTAN2 (ac unrhyw nodyn cyfarwyddyd neu bolisi perthnasol arall) yng ngoleuni cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer datblygiadau i adfer tomenni glo?

Wrth lunio eich ymateb i'r llythyr hwn, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried y wybodaeth atodol a ddarparwyd gan breswylwyr y mae cloddio glo brig yn effeithio arnynt, sydd wedi'i hatodi yn Atodiad A.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 3 Ionawr fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Annex A

Submission from Janice Adamson in response to the Committee's report

1. The paragraph on Tower Colliery Opencast restoration funding seemed incorrect to me. I don't know if the committee consulted the CEO of RCT on this matter, if not, they should. I had read that he ensured the planned restoration of the site by insisting on full payment upfront each year of opencast mining of sufficient funds to pay for the agreed restoration of the mining that was to take place that year. Thus when mining ended there was £96 million available for the planned restoration which then went ahead.
2. The importance of such an annual assessment and payment of funding necessary for the restoration of such industrial sites - not only of coal mining - but also of wind turbines, solar farms and their associated infrastructure of lithium battery storage containers, electricity pylon networks etc, even of nuclear power sites if any are ever built, is of prime significance in providing for the eventual restoration of these structures that are being spread like unwanted marmalade across our scenic countryside. The profits gained from these developments need to be regulated on an annual ongoing basis by the payment into an escrow fund of sufficient monies each year to cover the cost of the eventual restoration of the site. If not, I can see that come the day, the so called 'Green Energy' companies will behave in the same way as the privatised opencast coal industry has in recent years and walk away from the expense of restoration having squeezed all the vast profits from the endeavours.
3. There seems to be an emphasis in the report on public involvement in decisions concerning restoration alternative to that initially promised and which to a large extent ensured the planning consent in the first place. The emphasis should be on ensuring and funding the restoration plans detailed so minutely in the planning application that gained the consent originally. It is a mockery to give such consent, where 'amazing', detailed restoration is promised in order to gain that consent - as for Park Slip West in 1992/93 ( Public Inquiry Planning Inspector Mr Sheers) - and then after years of the local communities patiently suffering the pollution of all kinds, loss of roads, footpaths and general inconvenience, in the belief that restoration as agreed and promised will happen, to then renege on the agreement and reluctantly scrape a totally unacceptable, alternative, poorer finish. In the Park Slip Margam area we've even been robbed of two cross valley roads, ancient routes, so not only was there the inconvenience during the mining which provided the private company with huge profits while a local newsagent failed due to loss of passing trade, the environment was destroyed along with people's homes at Fforddygyfraith and the characterful Heol Fadoc Farmhouse.
4. There is a problem with restoration, as at Park Slip/Margam, when the mining operation moves along the outcrop resulting in successive applications for the next four years. Not only has restoration not happened but on overburden mounds, soil storage mounds and along watercourses, a certain amount of natural regrowth occurs and the company then cries that it cannot restore the site as planned because there are rare species living on structures, tips, that were intended as temporary storage areas, intended to be pushed back into the final void and

used in the restoration.  Thus the overburden mound constructed under the NCB Opencast Executive in the 1980's during the Park Slip stage of the opencast, located to the west of Law Street iis still there.  Both that overburden mound and the backfill mound from the next stages, following privatisation, Park Slip West andPark Slip West Extension,  and the Margam/ Park Slip 'Deep Mine' opencast still stand.  The former, located in Bridgend CBC, apart from having 20 metres added to it's height in 2001, has been left with no landscaping whatsoever and the backfill mound, in NPT CBC,has been slightly rounded along it's outline.  Bedford Road should have been reinstated in 2002 but the company was allowed to continue mining westwards without doing the necessary restoration. Someone should be answerable for allowing such contempt of consented plans.

5. Planning Officers have a great deal of power, they dictate and influence decisions by local authority planning committees. As such they are open to 'influence' by the mining or energy companies and there needs to be a second tier of control above them.  Why wasn't Bedford Road reinstated and the restoration due at that time undertaken?  There has been a succession of Planning Officers and mineral Planning Officers in Bridgend and Neath Port Talbot since 1996 when Bridgend cbc took over from Mid Glamorgan CC and NPT cbc took over from West Glamorgan.  Martin Hooker, Tony Gore and then  Jonathan Parsons - he left after the alternative 'restoration' decision somewhere around 2016.   In NPT, Geoff White, Cliff Patten, Nicola Morgan Neville Morgan - minerals officer - he also left around 2016 and after all the wrangling, court cases and decisions the mineral officer from Carmarthen who was totally unfamiliar with the site then gained responsibility for the opencast mines across South Wales I believe.  Before the final decision on whether or not to accept the alternative restoration plan was put to Committee in 2016(?), a site visit was organised for Bridgend Planning Committee members and those of us on the Site Liaison committee - there was a man on the bus I was on, not a Celtic Energy employee, extolling the virtues of the alternative scheme, saying how well the river area had recovered and about the protected species on the overburden mound - was that Hugh Towns?  We were being faced with a virtually unrestored site, the loss of two highways - though in Planning, they always ignore that decision saying that it is up to the Highways department - even though in the planning application the planning committee consented to the full restoration which included the reinstatement of the roads.  There was this man, promoting the alternative non-restoration.   There is a lot of underhand  behaviour which ignores both decisions made and the wishes of the public they 'serve'.  I asked that the planning committee ask the Welsh Government to call it in, to ask the Welsh Government to oversee the restoration, Jonathan Parsons seemed to find that amusing - NPT CBC had drawn up plans for the restoration of the site, paid for by the Welsh Government in 2014 because the Deep Mine, which was only ever applied for because that area of land was protected from opencast mining for the sinking of a deep mine, was not sunk and the company's most recent restoration plans had included the deep mine with a much lesser amount of opencast than was eventually completed.  Part of the reason there were insufficient funds to restore properly was that the first occasion following privatisation that the Local Authorities could impose an escrow fund was with the 1999 application for Margam Deep Mine plus a small amount of opencast to enable the mine to be sunk from the bottom of the void.  The majority of the funds needed would come from a charge on the tonnage from the deep mine over the 25 or

so years it was 'expected' to operate.  There was an informal statement from the company in a site liaison meeting in 2001 that the deep mine wouldn't be sunk from the void due to technical issues.  Slightly more formal was the exchange of letters between Neville Morgan and Mr Gandhi, Celtic Energy planning officer in 2003 where the question was asked, when was the deep mine to be sunk as the void was going beyond the point where it could be.  Due to economic and technical issues it wouldn't be going ahead.  Walters  became involved with Celtic Energy in 2002, the management buy out, headed by the former NCB South Walesmanager, Bryan Riddlestone (?)] had run the company up to that time.  He would have been fully aware of the restoration needed and at what stage.  He had overseen the NCB Opencast Executive restoration of Park Slip - now, 30 years later - recognised as a good restoration of an opencast site.  The kind of restoration which is the least the communities here should have been given, together with the reinstatement of both Crown Road and Bedford Road as Law Street had been reinstated in the early 1990s.

6. One of the most attractive features of the non restoration at Park Slip/Margam is the flooded void.  It is said to be 48 metres deep but I think it is nearer 75 metres deep, knowing that the void itself is 110 metres deep and looking at the exposed wall on the north side.  I think NRW has possibly carried out a sonar measurement of the depth.   The water in it is very cold and comes from seepage through the rock strata, from old mines that have been cut into at depth along the valley from Tondu, from water soaked into the infill along the several miles that the opencast has progressed from Tondu to Hafod Heulog woods, from rainwater and surface runoff.  There are no natural streams into the void and a drainage channel has been cut to link it to the River Kenfig (Afon Cynffig) which lies just to the west.  There have been problems with the culvert to the river getting blocked but perhaps that has helped in slowing the run off during times of heavy rainfall because the road down valley at Marlas Farm often floods now when there is heavy rainfall.  This is a problem because the nearby road through Cornelly and Maudlam was removed when the M4 was constructed which means that the nearest route to Porthcawl from Kenfig Hill is to the east through South Cornelly or from the west near to Margam Park.  The void is vast with sheer sides on most of its circumference so it is exceptionally dangerous where there was no danger previously.  People, mainly youngsters are attracted to it during hot weather and despite some signage telling them not to swim they do, go on it with inflatables and jump in from the cliffs on the Penybryn side.  People enjoy walking, running and cycling along the gravel roads, mountain bikers and small motorbike's traverse the tips and very slowly vegetation is returning in places.  We can only hope, I suppose, that the vast valley floor composed mainly of ground up rock, extending for miles doesn't suffer earth movements along any of the many faults that underly it,  if the tip was shaken into movement perhaps that would fill the flooded void and where and how quickly would the water go then?  I believe the flooded void at East Pit is in more imminent danger and really needs to be assessed as the vast volume of water there, hangs above the population below and there has been recent movement along faults that underly it.

Janice Adamson

Local resident Kenfig Hill, former member of Park Slip Site Liaison Committee and of PACT - Protecting and Conserving Together - local group opposing the opencast development.

Submission from Sue Jordan in response to the Committee's report

Thank you for the invitation to the launch of the Climate Change Committee's report on the restoration of opencast sites in Wales. This represents an important, if incremental, step forward. For the first time, Welsh government acknowledges the fragmented, disparate and dysfunctional operation of the publicly funded bureaucracies involved in the approval and oversight of opencast mining, and some of the consequences for the safety of residents.

The report has some omissions, which should be considered:

## What will change to avoid opencast mining damaging homes in future?

When seeking evidence from the Coal Authority and the local authorities, the Committee focused on Ffos-y-Fran: neither the Coal Authority nor Neath Port Talbot Council were asked to explain the problems attributable to their negligence at East Pit and Margam.

- Why was consent granted for East Pit in 2015 when the Coal Authority's (Groundsure) Report of 2012 had indicated a 'high risk of subsidence' to adjacent houses? What provisions have been made to ensure that warnings are not overlooked elsewhere?
- When this risk materialised in 2016-7, and our house was almost destroyed (photographs in attached), was section 38 of the Coal Mining Subsidence Act 1991 not followed? Why was responsibility abrogated by the Coal Authority, the Local Authority, Welsh Government, and Natural Resources Wales? What provisions have been made to ensure that harm is not overlooked again?

Powers of enforcement are enshrined in current legislation: all public bodies failed to use them as intended. How will the risk that new legislation will eviscerate existing legislation be mitigated?

## Urgent actions to ensure safety of residents

*The volumes of water held in former opencast mine voids are sufficient to endanger the public should discharge or breaches occur*. The residents of the Llynfell, Twrch and Swansea valleys are owed a duty of care.

The former East pit site constitutes an unplanned reservoir of 40 million cubic metres of water, on an active earthquake fault and some 150m above the valley floor, with unstable sides and no constructed dam to retain water. In March 2024 the A4069 collapsed, severing the links between Upper and Lower Brynaman, and prolonging school transport times in crucial pre-exam weeks. We, Gwaun Cae Gurwen Community Council, and our Senedd member (Sioned Williams) requested full assessments from the Reservoirs Panel of the Institute of Chartered Engineers, hydrologists and geologists. However, in the Senedd transcript of 8.5.24, the minister (Julie James) failed to answer the question, twice (transcript below).

*Only full restoration*, as promised in the 2004 planning application, can remove dangers of serious flooding of the valleys should another earthquake occur on the site of the February 2018 earthquake (4.6 on Richter scale). The compromise of an 'acceptable level' of restoration proposed in recommendation 7 does not ensure safety in the event of the collapse of any of loose rubble walls, whether due to earth movements, lightening strikes or heavy rain. Recommendation 22 addresses only the body of water at Ffos-y-Fran: Margam and East Pit should be rendered safe too. Recommendations 23 & 26 relate only to the common at Ffos-y-Fran, ignoring the Gwaun Cae Gurwen and Penlle'rfedwen common.

The response from Jan Adamson relating to Parc slip, Margam provides an excellent account of the problems generated by mismanagement.

Pollution due to opencast mining or outflow from residual bodies of water

Particulate matter (PM2.5) and polluted water are recognised health hazards to adults, children and the unborn child. There was no information as to how these are monitored and managed by the responsible agency, the Coal Authority.

Positive aspects of the report include:

- Highlighting the potential hazards and likelihood of future opencast. It may be worthwhile to note (para 8) that soil recovery from opencasting takes centuries.
- Voicing expert opinion: for example, Climate Change Cymru, para 24.
- Raising concerns over funding for restoration (recommendation 16). The Westminster government's enthusiasm for opencast mining in Wales is captured in the 2004 letter from the Department of Trade & Industry, attached. The Coal Industry Act 1994 expediting privatisation predates devolution. Paragraphs 32 - 35 highlight the impotence of the local authorities. Para 68 clarifies the inabilities of the local authorities to assess the costs of restoration.
- Recommendations 17-20 are positive, but may be insufficient to effect change.

Although the recommendations of the committee warrant support, they do not compel public bodies to act. For example, 'must' might replace 'should' (4,7,9,11,14,15,18,19,26), and 'must implement' might replace 'must consider /explore' (5,13.21).

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0001/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Senedd Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Ionawr 2025

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr ar 24 Tachwedd ar ran Pwyllgor Amgylchedd a Seilwaith Newid Hinsawdd y Senedd ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar "Adfer safleoedd mwyngloddio glo brig" a'r ddadl ddiweddar. Diolch hefyd am amgáu'r dystiolaeth ychwanegol gan drigolion Margam ac Abertawe. Rwyf wedi rhoi hyn i'm swyddogion i'w ystyried.

Er bod y ddadl ar 13 Tachwedd yn adeiladol, mae'n anochel nad oedd yr amser a ddyrannwyd ar gyfer ein trafodaeth yn ddigon i gwmpasu mater mor helaeth a chymhleth yn llawn. Rwy'n croesawu eich cwestiynau dilynol, a byddaf yn ymateb iddynt yn eu tro fel a ganlyn:

1. *Fel y dywedais i a chyfranwyr eraill yn y ddadl, mae trigolion wedi mynegi rhwystredigaeth o gael eu trosglwyddo'n barhaus o un corff cyhoeddus i'r llall. Rwy'n cydnabod eich bod wedi esbonio'r llinellau atebolrwydd yn eich ymateb, ond fel y dywedais yn ystod y ddadl, nid wyf yn credu bod hyn yn mynd i'r afael â chraidd y broblem. Os yw preswylydd o'r farn nad yw corff cyhoeddus neu weithredwr y safle yn cyflawni ei rwymedigaethau'n briodol, pa gymorth sydd ar gael iddynt? Dylech gynnwys yn eich gwybodaeth ymateb am bob un o'r cyrff sy'n rhan o'r broses.*

Os oes gan breswylwyr bryderon ynghylch sut mae safle'n gweithredu, y pwynt cyswllt cyntaf fyddai gyda gweithredwr y safle naill ai'n uniongyrchol drwy eu pwynt cyswllt cyhoeddedig neu drwy'r pwyllgor cyswllt ar y safle.  Os na fydd hynny'n datrys y mater, gall y preswylydd gwyno i'r corff cyhoeddus perthnasol.

Y corff perthnasol fyddai pa bynnag sefydliad sy'n gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r mater o bryder.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg.  Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno gwariant y GIG yn ôl rhaglen ofal ar sail y cyflwr meddygol y mae'r gwariant yn ymwneud ag ef.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gan yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio (yr Awdurdod Glo gynt) rôl yn rheoli hawliadau difrod ymsuddiant ac mae'n darparu gwybodaeth am weithgareddau cloddio glo, materion a gedwir yn ol i Lywodraeth y DU. Dylid derbyn cwynion am y gwasanaeth y mae'r awdurdod yn ei ddarparu i gwsmeriaid drwy ei weithdrefnau cwynion yn y lle cyntaf. Os yw'r mater yn ymwneud ag ymsuddiant tir, yna gellir mynd a'r achos i'r Ganolfan Datrys Anghydfodau yn Effeithiol neu Dribiwnlys Tir. Dylid cyfeirio materion gwasanaeth cyffredinol at Aelod Seneddol y preswylydd a all gyfeirio'r mater at Ombwdsmon y Senedd a'r Gwasanaeth Iechyd.

Ar gyfer materion sy'n ymwneud â dŵr yn gollwng, cronfeydd dŵr, dyddodion gwastraff, cwympo coed neu darfu ar fywyd gwyllt, gellir codi'r rhain gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Unwaith eto, dylid adrodd am broblem o wasanaeth cwsmeriaid gwael i weithdrefn gwynion y sefydliad yn y lle cyntaf ac yna eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r awdurdod lleol yn ymdrin â'r rhan fwyaf o faterion eraill, sef, ar wahân i'r parciau cenedlaethol, yr awdurdod cynllunio lleol yn gorfodi amodau cynllunio, awdurdod priffyrdd yn rheoli'r ffyrdd, corff iechyd yr amgylchedd yn ymchwilio i sŵn, llwch, arogleuon a chwynion am ansawdd aer a phroblemau diogelwch cyhoeddus cyffredinol. Ar gyfer materion sy'n ymwneud â gwasanaeth cwsmeriaid gwael, gweithdrefn gwynion yr awdurdod lleol yw'r cam cyntaf a ddilynir gan atgyfeiriad at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'r cyrff cyflawni hyn wedi cael y rôl o orfodi'r rheolaethau rheoleiddio ar safleoedd mwyngloddio. Yn aml, mae ganddynt ddisgresiwn ar sut y gwneir hyn ac ni ellir herio rhinweddau'r penderfyniadau. Fodd bynnag, os yw preswylydd o'r farn bod penderfyniad a wnaed gan gorff gorfodi yn weithdrefnol anghywir neu fel arall yn anghyfreithlon, gall wneud cais i'r Llysoedd am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad ond dylent ofyn am gyngor cyfreithiol eu hunain cyn gwneud hynny.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn mewn meysydd fel cynllunio, sy'n galluogi trigolion i ofyn i Lywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig. Ni all Gweinidogion Cymru wyrdroi penderfyniad awdurdod cynllunio lleol ac eithrio pan fo ymgeisydd yn apelio ar sail benodol. Os nad yw cais cynllunio wedi'i benderfynu eto, gall "alw y cais i mewn" i'w benderfynu yn lle'r awdurdod cynllunio lleol. Gellir gofyn iddo hefyd arfer ei bwerau gorfodi wrth gefn, ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai'n gwneud hyn.

2. *Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu'r cyllid o £25 miliwn ar gyfer diogelwch tomenni glo gan Lywodraeth y DU?*

Bydd y £25m yn cael ei ddyrannu drwy'r cynllun Grant Diogelwch Tomenni Glo presennol. Gall Awdurdodau Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru wneud cais am gyllid drwy'r cynllun. Bydd unrhyw dirffurf sy'n bodloni'r diffiniad y cytunwyd arno o domen nas defnyddir yn gymwys i'w ystyried. Bydd dyraniadau drwy'r cynllun yn cael eu blaenoriaethu yn ôl risg a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid statudol i nodi pa safleoedd y mae angen i ni eu blaenoriaethu.

3. *Dywed Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomenni Glo, "I gefnogi'r rhaglen diogelwch tomenni glo, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £44.4 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gefnogi awdurdodau lleol i wneud gwaith cynnal a chadw ac adfer ar domenni glo". Yn sgil hyn, pa mor fodlon ydych chi â'r swm o £25m a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU?*

Rydym wedi dyrannu tua £65m i awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Adfer Pyllau Glo (yr Awdurdod Glo gynt) ers 2020 i ymgymryd â gweithgareddau allweddol i gefnogi rhaglen diogelwch tomenni glo Llywodraeth Cymru ac yn ddiweddar ymrwymwyd dyraniad pellach o £12m ar gyfer 2025 – 26 yn y gyllideb ddrafft. Yn y cyfamser, mae'r £25m a ddyrannwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer un flwyddyn ariannol (2025-26) ac mae yn ychwanegol i'n hymrwymiad ni. Mae hyn yn golygu newid sylweddol yn lefel y buddsoddiad tuag at sicrhau bod ein cymunedau tomenni glo yn ddiogel. Blaenoriaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru nawr yw sicrhau y gallwn gyflawni'r dyraniad hwn o fewn yr amserlenni a roddir ac o fewn yr adnoddau presennol sydd gennym yng Nghymru. Blaenoriaeth hirdymor fydd meithrin y capasiti hwn o ran adnoddau (byddaf yn manylu ar hyn ymhellach yn fy ateb i gwestiwn 5) a byddwn wrth gwrs yn parhau â'n trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar anghenion cyllido yn rowndiau yr adolygiad gwariant yn y dyfodol.

4. *A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau a gawsoch gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr angen am gyllid pellach ar gyfer diogelwch tomenni glo?*

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir erioed bod angen rhaglen barhaus o fuddsoddi ar domenni glo, ac na allwn ac na ddylem wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Mae hwn yn bwynt y bûm i a'm cydweithwyr yn y Cabinet, yn y gorffennol a'r rhai presennol, wedi'i godi gyda Llywodraeth y DU ers sawl blwyddyn. Cododd Prif Weinidog Cymru y mater hwn yn uniongyrchol gyda Phrif Weinidog y DU yn ystod eu trafodaethau cynharaf ac fe gododd y mater eto gyda Phrif Weinidog y DU yn ystod cyfarfod cyntaf Cyngor y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau ym mis Hydref. Mae cyllideb ddilynol yr Hydref y Canghellor yn dangos bod Llywodraeth newydd y DU wedi gwrando ar yr hyn sydd ei angen ar Gymru ac fel y soniais uchod, byddwn yn parhau â'n trafodaethau ar anghenion cyllido gyda Llywodraeth y DU yn rowndiau yr adolygiad gwariant yn y dyfodol.

5. *A allech roi mwy o fanylion am "ddull strategol arfaethedig Llywodraeth Cymru o ymdrin â mwyngloddio ac etifeddiaeth ddiwydiannol," gan gynnwys amcanion penodol, llinellau amser ac adnoddau sydd wedi'u cynllunio?*

Cyflwynais y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) i'r Senedd ar 9 Rhagfyr. Bydd y Bil yn sefydlu'r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir i Gymru a'i brif amcan fydd sicrhau nad yw tomenni segur yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd. Nod yr amserlen arfaethedig gyfredol yw i'r Awdurdod newydd ddod i rym ym mis Ebrill 2027.

Unwaith y bydd y mesur wedi'i weithredu, byddaf i a chydweithwyr yn y Cabinet yn ceisio amlinellu ein dull o ymdrin â mwyngloddio ac etifeddiaeth ddiwydiannol ehangach Cymru. Credaf ei bod yn hanfodol ein bod yn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ein bod yn gyd-gysylltiedig o ran y materion hyn - ar y sail hon fy ngham cyntaf yn y flwyddyn newydd fydd ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am gonsensws ar ddull y DU gyfan o ddelio â'r etifeddiaeth ddiwydiannol.

6. *A wnaiff Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau bod datblygiadau arfaethedig ar gyfer adfer tomenni glo yn ymgorffori gwersi a ddysgwyd o safleoedd fel Ffos-y-Fran yn benodol?*

Ein polisi cyffredinol ar adfer tomenni glo yw troi'r safleoedd hyn yn asedau buddiol i'n cymunedau. Wrth gwrs, byddwn yn ystyried y gwersi o Ffos-y-Fran fel y byddem ar gyfer unrhyw brosiect adfer o'r fath. Yn y pen draw, bydd yr opsiwn gorau ar gyfer adfer yn dibynnu ar bob tomen unigol, gan gynnwys ei statws perygl a pha mor agos yw at dderbynleoedd sensitif megis cymunedau.

7. *Yng ngoleuni'r cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer datblygiadau adfer tomenni glo, pa fodelau ychwanegol sy'n rhannu budd cymunedol fydd yn cael eu hystyried os nad yw perchnogaeth gymunedol yn ymarferol?*

Ni fyddem am drosglwyddo unrhyw atebolrwydd yn y dyfodol am gynnal tomenni glo i gymunedau lleol. Mae cynnal a chadw tomenni yn fater i'r perchnogion/gweithredwyr a hyd yn oed pe byddai'n bosibl cysylltu datblygu buddion cymunedol, nid yw'n iawn i gymunedau orfod talu am adfer yn y dyfodol.

8. *A allwch egluro sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac adolygu'r angen am newidiadau posibl i MTAN2 (ac unrhyw nodyn cyfarwyddyd neu bolisi perthnasol arall) yng ngoleuni cynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer datblygiadau i adfer tomenni glo?*

Mae ein polisi wedi'i gryfhau'n sylweddol yn erbyn cloddio glo ers i MTAN 2 gael ei gyhoeddi i'r pwynt lle byddai'r profion cyfiawnhad ar gyfer gwaith cloddio glo newydd bron yn gwahardd cynlluniau newydd. Hefyd, mae Gweinidogion wedi rhoi Cyfarwyddyd Hysbysu ar waith sy'n caniatáu iddynt gael eu gweld ar unrhyw gynigion newydd i gloddio am danwyddau ffosil y mae awdurdodau lleol yn bwriadu eu cymeradwyo. Mae gan Weinidogion Cymru feto hefyd dros y drefn trwyddedu glo sy'n golygu nad yw'n debygol iawn y bydd gweithfeydd glo brig newydd yn agor. Mae MTAN2 yn ymwneud â datblygiadau newydd yn hytrach na chynlluniau hanesyddol felly nid oes gennym unrhyw fwriad i ddiwygio'r ddogfen o ystyried y polisi cryf a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

David Stanley Lewis
Cyfarwyddwr, Merthyr (De Cymru) Cyf
Chris Barber
Rheolwr Gweithrediadau, Merthyr (De Cymru) Cyf

2 Rhagfyr 2024

Ymweliad y Pwyllgor ar 7 Tachwedd

Annwyl David a Chris,

Ysgrifennaf ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ddiolch i chi a staff Merthyr (De Cymru) am groesawu ein hymweliad diweddar â safle glo brig Ffos-y-Fran ym Merthyr Tudful.

Rhoddodd yr ymweliad gyfle i aelodau'r Pwyllgor ddeall yn well y materion a drafodwyd gennym yn ystod ein hymchwiliad, yr hanes sy'n gysylltiedig â'r safle, y gwaith a wnaed gan gwmni Merthyr (De Cymru) Cyf a'r cwmnïau a'i rhagflaenodd, ynghyd â'r broses o ddatblygu cynlluniau arfaethedig ar gyfer cynllun adfer diwygiedig, ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Richards, Moorehead & Laing Ltd.

Yn dilyn ein hymweliad, hoffem hefyd fachu ar y cyfle i dynnu sylw at y ddadl gysylltiedig a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn 13 Tachwedd, sef "Adfer safleoedd glo brig", y gellir ei gwylio ar SeneddTV, yn ogystal â'r canlynol:

- Adroddiad y Pwyllgor ar adfer safleoedd glo brig;
- Yr ymateb a gafwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Yr ymateb a gafwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Yn olaf, yn sgil y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud gan gwmni Merthyr (De Cymru) Cyf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, hoffem annog mwy o waith ymgysylltu â'r gymuned a mwy o dryloywder, yn enwedig o ystyried yr effaith ar drigolion lleol wrth i gynlluniau adfer gael eu newid. Yn benodol, hoffem awgrymu bod trigolion yn destun gwaith ymgynghori mewn perthynas ag unrhyw gynigion a gyflwynir yn y misoedd nesaf.

Edrychwn ymlaen at weld cynllun hirdymor yn cael ei ddatblygu i adfer y safle, at ddibenion sicrhau ei fod yn ddefnyddiol i bobl Merthyr ac yn eu hanrhydeddu, ei fod yn amgylcheddol amrywiol, ei fod yn chwarae rhan yn nhwf economaidd y rhanbarth, a'i fod yn gwasanaethu cenedlaethau'r dyfodol.

Gan fod y mater hwn yn berthnasol i Ellis Cooper, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn ato.

Cofion cynnes,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0362/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Rhagfyr 2024

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, hoffwn roi gwybod ichi y cynhaliwyd cyfarfod arall o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 18 Tachwedd 2024, ble yr oeddwn yn bresennol.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Jim Fairlie ASA, y Gweinidog Amaeth a Chysylltedd.

Mynychwyd y cyfarfod hefyd gan Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig, Diwygio Tir ac Ynysoedd, Andrew Muir ACD, y Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, a Daniel Zeichner AS, y Gweinidog Diogelwch Bwyd a Materion Gwledig. Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig yn crynhoi'r trafodaethau yn y cyfarfod.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 27 Ionawr 2025.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0363/24

Mike Hedges MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

4 Rhagfyr 2024

Annwyl Mike, Llŷr,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, roeddwn i eisiau adrodd ar gyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyngweinidogol Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd, a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2024. Mynychwyd hyn gan Y Gwir Anrh Ed Miliband MP, Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net.

Mynychwyd y cyfarfod hefyd gan Michael Shanks MP (MS), Gweinidog Ynni, Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, Gillian Martin MSP, Ysgrifennydd Cabinet Dros Dro dros Sero Net ac Ynni, Dr Alasdair Allan MSP, Gweinidog Gweithredu Hinsawdd Dros Dro, Andrew Muir MLA, Minister of Agriculture, Gweinidog Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig, Conor Murphy MLA, Gweinidog yr Economi.

Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig sy'n crynhoi'r trafodaethau. Cytunwyd y bydd Gogledd Iwerddon yn cadeirio'r cyfarfod nesaf yn Belfast. Rydym yn bwriadu cwrdd eto ym mis Rhagfyr ond rhannaf i'r dyddiad pan gaiff e ei gadarnhau.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

6 Rhagfyr 2024

Annwyl Mike,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 42ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am 42ain cyfarfod Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a fydd yn cael ei gynnal gan Lywodraeth yr Alban yr wythnos hon.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS a minnau yn bresennol yn yr uwchgynhadledd. Yn ogystal â'r cyfle arferol i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar faterion, thema'r uwchgynhadledd yw 'Cyllido Pontio Teg'.

Bydd y Cyngor yn cytuno ar ddatganiad yn yr uwchgynhadledd a fydd yn manylu ar y trafodaethau a gynhaliwyd, a byddaf yn ysgrifennu atoch er mwyn ei rannu â chi. Byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd mewn datganiad ysgrifenedig maes o law.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.ElunedMorgan @llyw.cymru
Correspondence.ElunedMorgan @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1SN

Anfonwyd copi at:
Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

6 Rhagfyr 2024

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

**Deiseb P-06-1478 Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru**

Bu'r Pwyllgor Deisebau yn trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Alun Phillips, yn ei gyfarfod ar 18 Tachwedd.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu i ofyn am eich barn ar yr ohebiaeth atodedig gan y deisebydd ac i anfon copi at Gadeiryddion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig er gwybodaeth iddynt. Nododd yr Aelodau y bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn parhau i graffu ar y materion hyn a bydd cyfleoedd hefyd i Aelodau barhau i'w codi yn y Cyfarfod Llawn.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor hefyd yn trafod dwy ddeiseb ar wahân ynghylch dull CNC o ymdrin â gwasanaethau canolfannau ymwelwyr, a bydd hefyd yn cadw'r ddeiseb P-06-1478 hon ar agor, tra'n aros am eich ymateb



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae'r manylion llawn am y modd y trafododd y Pwyllgor y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1478 Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau’r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy neges e-bost at y tîm clercio yn SeneddDeisebau@cynulliad.cymru.

Yn gywir,

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 4.5

# Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

## Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio

08/01/2025

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar gynigion Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio a amlinellir yng Nghyllideb ddrafft 2025-26, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hefyd am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

# Cynnwys


**1. Cyffredinol ........ 3**

**2. Deddfwriaeth ........ 7**

**3. Newid Hinsawdd ........ 8**

**4. Ynni ac effeithlonrwydd ynni ........ 9**

**5. Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW) ........ 11**

**6. Porthladdoedd a Meysydd Awyr ........ 12**

**7. Crynodeb ........ 13**

# 1. Cyffredinol

*Blaenoriaethau'r Gyllideb*

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o linellau gwariant cyllideb Ynni, Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a Chynllunio o fewn cynlluniau Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio fel y'u cyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 ar 10 Rhagfyr. Mae hyn yn cadarnhau cynnydd o £8.9m mewn adnoddau cyllidol (refeniw gan gynnwys refeniw nad yw'n arian parod) a dim newidiadau i gyfalaf o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2025-26.

Y llinell sylfaen a ddefnyddir ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26 yw Cyllideb Derfynol 2024-25 (ailddatganwyd ym mis Medi 2024) wedi'i haddasu ar gyfer addasiadau llinell sylfaen cylchol ar gyfer 2024-25 i gefnogi dyfarniad cyflog 2024-25 y sector cyhoeddus a chynnydd mewn cyfraniadau pensiwn o fis Ebrill 2024 oherwydd newid yn y gyfradd o'r enw Cyfraniadau Blwydd-dal wedi'u Haddasu ar gyfer Profiad y Gorffennol. Mae rhagor o addasiadau llinell sylfaen yn gysylltiedig â chyllid anghylchol ar gyfer Cyfalaf Trafodiadau Ariannol.

Mae ein penderfyniadau cyllido yn y gyllideb ddrafft hon wedi'u seilio ar flaenoriaethau ein llywodraeth. Mae'r ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn allweddol ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer yr Economi, Ynni a Chynllunio yn glir: Rydym am greu swyddi gwyrdd sy'n tyfu'r economi, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac adfer natur, a sicrhau bod teuluoedd yn well eu byd; a chyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru.

| RESOURCE BUDGET | | | £'000 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Action | BEL No. | BEL Description | Plans as per 2024-25 Final Budget Restated September 2024 | Baseline Adjustments for 2025-26 | 2025-26 Revised Baseline | Changes | 2025-26 Draft Budget December 2024 |
| Energy Efficiency | 1280 | Green Energy | 3,297 | 10 | 3,307 | 5,150 | 8,457 |
| | 3772 | Ynni Cymru | 2,470 | 0 | 2,470 | 0 | 2,470 |
| | **Total Energy Efficiency** | | **5,767** | **10** | **5,777** | **5,150** | **10,927** |
| Cardiff International Airport | 1240 | Cardiff International Airport | -3,000 | 0 | -3,000 | 0 | -3,000 |
| | **Total Cardiff International Airport** | | **-3,000** | **0** | **-3,000** | **0** | **-3,000** |
| Planning and Regulation | 2256 | Planning and Environment Decisions Wales | 2,997 | 71 | 3,068 | 1,900 | 4,968 |
| | 2250 | Planning & Regulation Expenditure | 1,999 | 6 | 2,005 | 1,841 | 3,846 |
| | **Total Planning and Regulation** | | **4,996** | **77** | **5,073** | **3,741** | **8,814** |
| | **Total Resource Budget** | | **7,763** | **87** | **7,850** | **8,891** | **16,741** |

| CAPITAL BUDGET | | | £'000 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Action | BEL No. | BEL Description | Plans as per 2024-25 Final Budget Restated September 2024 | Baseline Adjustments for 2025-26 | 2025-26 Revised Baseline | Changes | 2025-26 Draft Budget December 2024 |
| Energy Efficiency | 1280 | Green Energy | 17,200 | -4,800 | 12,400 | 0 | 12,400 |
| | 3772 | Ynni Cymru | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| | **Total Energy Efficiency** | | **27,200** | **-4,800** | **22,400** | **0** | **22,400** |
| Cardiff International Airport | 1240 | Cardiff International Airport | 1,783 | 0 | 1,783 | 0 | 1,783 |
| | **Total Cardiff International Airport** | | **1,783** | **0** | **1,783** | **0** | **1,783** |
| | **Total Capital Budget** | | **28,983** | **-4,800** | **24,183** | **0** | **24,183** |

Er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau, rydym wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer 2025-26 yn y gyllideb hon:

- Mae **£5m yn ychwanegol** yn cael ei ddyrannu i gefnogi ein hynni gwyrdd, fel y gellir datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd a phrosiectau ynni lleol yng Nghymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i leihau allyriadau ledled Cymru a chefnogi twf yn ein heconomi leol.
- Mae cyflymu penderfyniadau cynllunio seilwaith yn allweddol i alluogi'r economi i dyfu ac felly rydym yn buddsoddi **£3.741m yn ychwanegol** yn y maes hwn. Bydd yr arian ychwanegol yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru a'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio i gynyddu gallu i ymdrin â'r nifer cynyddol o geisiadau seilwaith mewn modd amserol.
- Mae ein cyllid ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor a chymorth hanfodol i gyrff cyhoeddus wrth iddynt weithio tuag at ein huchelgais cyffredin o sector cyhoeddus Cymru sero net erbyn 2030.

*Esboniad manwl o sut mae'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiadau a wnaed mewn blynyddoedd ariannol blaenorol, gan gyfeirio'n benodol at adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2024-25.*

Rydym wedi ystyried yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, ac rydym yn parhau i flaenoriaethu camau gweithredu sy'n cefnogi cynyddu ynni adnewyddadwy yng Nghymru i gyflawni ein targedau ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu rydym yn eu cymryd i gyflawni argymhellion yr archwiliad dwfn ar ynni adnewyddadwy. Yn benodol yn 2025-26 byddwn yn gweithio gyda'r sector adnewyddadwy i gyflawni bargen sector yn unol ag un o argymhellion yr archwiliad dwfn. Bydd y fargen sector hon yn amlinellu ymrwymiadau gan y llywodraeth a'r diwydiant i gyflawni ein targedau mewn ffordd sy'n sicrhau mwy o fuddion i Gymru. Bydd dwyn ynghyd gyfrifoldebau'r Economi, Ynni a Chynllunio o dan un ymbarél yn sicrhau ein bod yn goruchwylio'r dulliau polisi allweddol i gyflawni ein huchelgeisiau ynni adnewyddadwy ar gyfer Cymru.

Mae ein cyllideb yn sicrhau cyllid ychwanegol hefyd ar gyfer Trydan Gwyrdd Cymru i gyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ar ystad goed Llywodraeth Cymru. Bydd ein dull gweithredu dan arweiniad y sector cyhoeddus yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein nodau i sicrhau bod Cymru yn buddsoddi mwy mewn ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Rydym wedi gosod targed i Trydan Gwyrdd Cymru sicrhau 250MW o gapasiti newydd erbyn 2030 a 750MW arall erbyn 2040. Gyda'r cwmni bellach wedi'i lansio'n ffurfiol, mae gennym gytundeb fframwaith ar waith ac mae gan y cwmni fwrdd annibynnol i oruchwylio ei weithrediadau.

*Gwybodaeth am effaith penderfyniadau cyllidol a pholisi Llywodraeth y DU ar ddyraniadau'r gyllideb/ Manteision i Gymru sy'n deillio o benderfyniadau a pholisïau cyllidol Llywodraeth y DU, gan gynnwys Cronfa Cyfoeth Genedlaethol y DU*

Rydym yn croesawu'r ffocws gan Lywodraeth newydd y DU ar ynni a Chenhadaeth pŵer glân 2030 i greu mwy o ddiogelwch ynni a chreu swyddi a thwf gwyrdd. Fel rhan o'r ymgyrch i gyflwyno prosiectau ynni adnewyddadwy newydd yn gyflymach, mae Llywodraeth y DU yn sefydlu Ynni Prydain Fawr. Bydd Ynni Prydain Fawr yn cefnogi buddsoddiad newydd ar hyd a lled Prydain Fawr gan ddefnyddio cyllid sydd ar gael gan Gronfa Cyfoeth Genedlaethol y DU. Rydym yn gweithio gydag Ynni Prydain Fawr i weithio mewn partneriaeth i gyflymu'r gwaith cyflawni yng Nghymru gan ddefnyddio ein swyddogaethau cyflawni sefydledig gan gynnwys Trydan Gwyrdd Cymru ac Ynni Cymru.

Cafwyd ymgysylltu cadarnhaol rhwng Llywodraeth newydd y DU gan gynnwys cyfarfodydd cynnar gyda'r Prif Weinidog, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach sy'n dangos ymrwymiad clir i gydweithio i gyflawni rhai o'n huchelgeisiau cyffredin i sicrhau twf a swyddi yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyrdd ar Strategaeth Ddiwydiannol ym mis Hydref. Mae'n nodi cynllun 10 mlynedd gyda'r nod o annog twf a chreu swyddi trwy roi'r sefydlogrwydd a'r sicrwydd sydd eu hangen ar fusnesau i fuddsoddi. Bydd yn mynd ati'n fwriadol i dargedu lleoedd a sectorau sy'n sbarduno twf a'i nod yw cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal twf ar draws yr economi. Ar lefel swyddogol, bu ymgysylltu cynnar cadarnhaol â Llywodraeth y DU mewn perthynas â datblygu'r Strategaeth Ddiwydiannol sydd wedi canolbwyntio ar gryfderau cymharol Cymru ar lefel y DU. Cynhaliwyd gweithdy Llywodraeth y DU gyda swyddogion ar 19 Tachwedd ac rydym ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth i lywio ein hymateb a fydd yn cyd-fynd â'r pedair blaenoriaeth a amlinellir yn y Genhadaeth Economaidd.

Credwn y gallai ac y dylai datblygu 'dur gwyrdd' yn ardal Port Talbot a'r cyffiniau yn y dyfodol wneud cyfraniad sylweddol at sicrhau twf hirdymor, cynaliadwy, cynhwysol a gwydn. Rydym yn bwriadu cyflwyno dadl gref i'r perwyl hwnnw yn ein hymateb i Lywodraeth y DU. Yn ogystal, byddwn yn tynnu sylw hefyd at y potensial ar gyfer amrywiaeth o is-sectorau o fewn y sector ynni glân y credwn a all fod â rôl bwysig yn y blynyddoedd i ddod.

Fodd bynnag, er bod ymgysylltu wedi bod yn gadarnhaol o ran y Strategaeth Ddiwydiannol, mae diffyg eglurder o hyd ynghylch cyllid yn y dyfodol i gefnogi'r gwaith cyflawni, gydag ansicrwydd ynghylch manylion mewn meysydd fel y Gronfa Cyfoeth Genedlaethol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Bydd y Banc Seilwaith

Cenedlaethol o dan ei enw newydd, y 'Gronfa Cyfoeth Cenedlaethol', yn cael £5.8bn yn ychwanegol (gan wneud cyfanswm o £27.8bn). Byddai'r UKIB a Banc Busnes Prydain yn cael eu 'halinio' o dan y gronfa. Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan newidiadau pellach a wneir trwy ddeddfwriaeth a fydd yn ceisio ehangu cylch gwaith y gronfa. Mae swyddogion yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU er mwyn deall sut y bydd y gronfa'n gweithio'n ymarferol a'i pherthynas â sefydliadau eraill fel Ynni Prydain Fawr a Banc Datblygu Cymru.

# 2. Deddfwriaeth

*Sut mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer cyflawni deddfwriaeth Llywodraeth Cymru sydd newydd gael ei phasio ac sydd ar y gweill.*

Nid oes deddfwriaeth Llywodraeth Cymru sydd newydd gael ei phasio ac sydd ar y gweill ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26 o fewn fy nghyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn.

# 3. Newid Hinsawdd

*Cyflawni'r polisïau a'r cynigion yng nghynllun Sero Net Cymru*

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgarwch i ddatgarboneiddio'r system ynni yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni ein targedau statudol i gyrraedd sero net erbyn 2050. Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi ymgynghoriadau ar ein polisi ar ddal, defnyddio a storio carbon a hydrogen yng Nghymru. Mae ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol diwydiant a chynhyrchu ynni yng Nghymru yn un lle mae diwydiannau cynaliadwy yn cael eu cadw yng Nghymru ac yn parhau i gynhyrchu swyddi o ansawdd uchel a manteision eraill i'r cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt. Mae ein polisi arfaethedig yn amlygu y byddwn yn cefnogi prosiectau Dal a Storio Carbon (CCS) a phrosiectau hydrogen lle maent yn gwneud cyfraniad clir, mesuradwy a pharhaus i ddatgarboneiddio neu'r broses o bontio i ffwrdd o danwydd ffosil yng Nghymru. Bydd ein penderfyniadau cyllidebol yn cefnogi'r broses o weithredu ein polisïau CCS a hydrogen gan gynnwys trwy ddiweddaru Polisi Cynllunio Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain gweithgarwch ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru i ddatblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol. Mae'r cynlluniau hyn yn dangos y camau y mae angen eu cymryd ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru i gyflawni sero net erbyn 2050. Byddwn yn parhau i ddarparu adnoddau ar draws y rhanbarthau i roi'r camau gweithredu a nodir yn y Cynlluniau Ynni Ardal Leol ar waith a chyflwyno maint y buddsoddiad y mae'r cynlluniau hynny'n eu nodi. Byddwn yn darparu cyllid cyfalaf drwy'r gyllideb hon i gefnogi gweithredu'n gynnar y gweithgarwch a nodwyd yn y Cynlluniau Ynni Ardal Leol. Rydym wedi buddsoddi cyllid refeniw o £0.650m yn 2025-26 i ddatblygu'r cynlluniau Ynni hyn.

Yn 2024 fe wnaethon ni gyhoeddi strategaeth gwres ar gyfer Cymru. Mae ein strategaeth gwres yn nodi llwybr at ddatgarboneiddio gwres mewn lleoliadau domestig a diwydiannol i gyflawni sero net ac mae'n dangos sut y gallwn gyrraedd yr uchelgais o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030. Mae'n gosod gweledigaeth ar gyfer gwres glân fforddiadwy yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r strategaeth, fe wnaethom gyhoeddi mapiau Cyfleoedd Gwres Dŵr Mwynglawdd hefyd i hysbysu awdurdodau lleol a datblygwyr sy'n dymuno archwilio'r cyfleoedd ar gyfer gwres mwynglawdd yng Nghymru. Byddwn yn parhau i helpu i gefnogi cyfleoedd i ddatgarboneiddio gwres yn unol â'n strategaeth gwres trwy ddarparu cyllid cyfalaf i sicrhau buddsoddiad lleol ar gyfer datgarboneiddio gwres ledled Cymru.

# 4. Ynni ac effeithlonrwydd ynni

*Darparu rhaglenni effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac ynni'r sector cyhoeddus, gan gynnwys dyraniadau penodol ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Ynni Cymru, Ynni Cymunedol Cymru a Trydan Gwyrdd Cymru. Dyraniadau eraill i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau ynni adnewyddadwy.*

Rydym yn parhau yng nghyllideb 2025-26 i flaenoriaethu cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru i gefnogi ein targedau i gynhyrchu digon o ynni adnewyddadwy yng Nghymru i ddiwallu ein hanghenion trydan cyfatebol erbyn 2035. Rydym wedi buddsoddi £4.5m o gyllid refeniw ychwanegol i gefnogi **Trydan Gwyrdd Cymru** ac wedi blaenoriaethu'r gweithgarwch i gadw budd a gwerth yng Nghymru o brosiectau a ddatblygir gan ein cwmni ynni adnewyddadwy. Bydd ein cyllid yn parhau i gefnogi'r cwmni ac ariannu'r gwaith datblygu ar y pum safle blaenoriaeth i Trydan. Nod y prosiectau hyn yw cynhyrchu 500MW o gapasiti newydd, digon i bweru 400,000 o gartrefi. Bydd Trydan yn parhau i ddatblygu'r prosiectau hyn gan weithio gyda'n cymunedau i ddeall sut y gallwn ddarparu manteision lleol.

Ochr yn ochr â Trydan Gwyrdd Cymru, rydym wedi parhau i flaenoriaethu yn y gyllideb hon y gwaith o gyflawni Ynni Cymru. Mae **Ynni Cymru** yn cefnogi'r gwaith o gynyddu prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol i ddatblygu atebion ynni lleol clyfar i sicrhau bod y cyflenwad lleol yn cyfateb yn well i'r galw lleol. Gan adeiladu ar lwyddiant y gronfa gyfalaf gwerth £10m yn 2024-25, rydym wedi cynnal cyllid ar £10m i gefnogi buddsoddiad ychwanegol drwy Ynni Cymru i fuddsoddi mewn prosiectau lleol a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatgarboneiddio ein cartrefi, ein busnesau a'n cymunedau ledled Cymru gyfan.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda diwydiant i ddatblygu bargen sector ynni adnewyddadwy. Nod bargen sector yw cael gwared ar rwystrau a gweithio'n agos â diwydiant ar sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i fanteision prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Bydd ein cyllideb yn cefnogi'r gwaith i gytuno ar gytundeb â diwydiant yn 2025-26.

Mae'r buddsoddiad yng **Ngwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru** yn cefnogi ein huchelgais i gael sector cyhoeddus sero net yng Nghymru erbyn 2030 ac mae'n rhan allweddol o'n gwaith ym mhortffolio Newid Hinsawdd a Materion Gwledig. Mae'r gwasanaeth yn helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus i ddatblygu cynlluniau datgarboneiddio sydd nid yn unig yn lleihau eu hôl troed carbon ond sydd hefyd yn arbed costau i'r pwrs cyhoeddus drwy effeithlonrwydd ynni. Dyrannwyd cyllideb o £21m i ddarparu benthyciadau a grantiau ar gyfer buddsoddiad parhaus mewn effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus. Gellir dod o hyd i fanylion dyraniad Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru mewn

tystiolaeth a ddarparwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Rydym yn parhau i gefnogi'r sector ynni cymunedol yng Nghymru, gan gynnwys drwy ein gwaith gydag Ynni Cymunedol Cymru a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Rydym wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer Ynni Cymru hefyd gyda £2.47m o gyllid refeniw a £10m o gyllid cyfalaf yn 2025-26. Bydd Ynni Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol yng Nghymru gan gydweithio ag Ynni Cymunedol Cymru a rhanddeiliaid strategol eraill yng Nghymru.

*Polisïau a rhaglenni i gefnogi datgarboneiddio yn y sector tai, gan gynnwys dyraniadau ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, y Cynllun Nyth Cartrefi Cynnes a Chynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai sy'n gyfrifol am bolisi'r gweithgarwch hwn a bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu tystiolaeth fel rhan o'i thystiolaeth i'r Pwyllgor.

# 5. Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW)

*Manylion dyraniadau'r gyllideb ar gyfer NICW*

Mae £3.741m o gyllid refeniw ychwanegol wedi'i fuddsoddi yng nghyllideb 2025-26 i gyflawni blaenoriaeth y Prif Weinidog i gyflymu penderfyniadau cynllunio seilwaith. Bydd £0.400m o'r gyllideb o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cynllunio a Rheoleiddio yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol.

# 6. Porthladdoedd a Meysydd Awyr

***Sut y bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi datblygiad porthladdoedd morol Cymru. Yn benodol, unrhyw ddyraniadau i gefnogi'r gwaith o weithredu strategaeth hirdymor ar gyfer Maes Awyr Caerdydd yng nghyllideb ddrafft 2025-26, sut y caiff hyn ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwerth am arian ac a oes unrhyw gynlluniau ar gyfer dyraniadau yn ystod y flwyddyn ym mlwyddyn ariannol gyfredol 2024-25 i gefnogi'r strategaeth.***

Bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth Porthladdoedd Morol i Gymru cyn diwedd tymor y Senedd hon. Y bwriad yw datblygu'r strategaeth ochr yn ochr â'r cynllun logisteg a chludo nwyddau newydd i Gymru - ymrwymiad arall o dan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru - o ystyried y cyd-ddibyniaethau sylweddol rhwng y sectorau.

Mewn ymateb i unrhyw ddyraniadau i gefnogi'r broses o weithredu strategaeth hirdymor ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Cyhoeddwyd asesiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) o fuddsoddiad hirdymor arfaethedig Llywodraeth Cymru ym Maes Awyr Caerdydd ar 2 Hydref. Cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig mewn ymateb ar yr un diwrnod.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynd i wneud sylwadau ar fanylion adroddiad y CMA ar hyn o bryd. Yn unol â'r Datganiad Ysgrifenedig, rydym ar hyn o bryd yn cymryd yr amser sydd ei angen i roi ystyriaeth lawn i'w hasesiad. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn agored i fireinio'r rhaglen fuddsoddi arfaethedig ar sail yr asesiad hwnnw a'r sylwadau a wnaed i'r CMA gan drydydd partïon sydd â buddiant. Ar ôl i ni orffen ein gwaith mewn ymateb i adroddiad y CMA, ac mae Ysgrifenyddion y Cabinet wedi gwneud penderfyniad terfynol ar union natur unrhyw becyn buddsoddi arfaethedig, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd.

Bydd dyraniadau ar gyfer y pecyn buddsoddi hirdymor arfaethedig ar gyfer Maes Awyr Caerdydd yn cael eu gwneud unwaith y bydd Ysgrifenyddion y Cabinet wedi penderfynu sut yr hoffent fwrw ymlaen, yn sgil adborth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar y buddsoddiad arfaethedig.

# 7. Crynodeb

Mae'r cynlluniau ar gyfer llinellau gwariant y gyllideb sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, o fewn Prif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26, yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Rebecca Evans

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/PO/0393/24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Rhagfyr 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon), heddiw wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ac ymateb gan yr Awdurdod sy'n ymwneud â gwaith parhaus i adolygu dyrannu lwfansau am ddim o fewn y cynllun. Mae polisi dyraniadau am ddim wedi'i gynllunio i liniaru ar ddadleoli carbon sy'n deillio o ddod i gysylltiad â phris carbon Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU). Maent yn lwfansau sy'n cael eu darparu am ddim i ddiwydiannau sy'n wynebu cystadleuaeth yn fyd-eang gan gystadleuwyr mewn gwledydd sydd â pholisïau lliniaru newid hinsawdd gwannach (dadleoli carbon). Ar hyn o bryd, dyraniadau am ddim yw'r prif ysgogydd polisi ar gyfer lliniaru ar ddadleoli carbon.

Ym mis Rhagfyr 2023 cyhoeddwyd ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddyraniadau Am Ddim, a oedd yn ceisio barn ar sut y gellid addasu polisi dyraniadau am ddim i gael ei dargedu'n well at sectorau'r DU sydd fwyaf mewn perygl o ddadleoli carbon. Y nod oedd gweithredu unrhyw newidiadau cyn yr ail gyfnod dyrannu yn 2026. Fodd bynnag, ym mis Medi 2024 lansiodd yr Awdurdod ymgynghoriad wedi'i dargedu a oedd yn gofyn am farn ar oedi cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith tan 2027. Cynigiwyd hyn i roi amser ychwanegol i ystyried barn rhanddeiliaid a datblygu polisi yn ofalus mewn maes cymhleth a heriol, yn ogystal ag alinio newidiadau i bolisi dyraniadau am ddim â chynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno Mecanwaith Addasu Ffiniau Carbon y DU (CBAM) yn 2027. Mae'r cysylltiad â CBAM y DU yn arbennig o bwysig gan ei fod yn ffordd arall o liniaru ar ddadleoli carbon ac, o'r herwydd, mae'n debygol o effeithio ar bolisi dyraniadau am ddim ETS y DU. Felly, roedd rhanddeiliaid yn gryf o blaid cysoni gweithrediad y polisïau hyn. Mae "*Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU: Symud Ail Gyfnod Dyrannu am Ddim ETS y DU: Ymateb yr Awdurdod*" a gyhoeddwyd heddiw yn cadarnhau y bydd yr oedi arfaethedig yn digwydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y ddogfen ymgynghori sy'n cael ei chyhoeddi yw “*Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU - Adolygiad o Ddyraniadau am Ddim: Ymgynghoriad ar Ddadleoli Carbon.*” Mae hyn yn dilyn cynigion ymgynghoriad Rhagfyr 2023 a oedd â'r nod o ddiweddaru'r Rhestr Dadleoli Carbon, sef rhestr o sectorau sydd mewn perygl o ddadleoli carbon. Mae'r ymgynghoriad newydd hwn yn rhoi rhagor o fanylion am y cynigion hynny ac yn ceisio mewnbwn pellach gan randdeiliaid am ein dull gweithredu o ran dadleoli carbon. Mae'n cynnig manylion ychwanegol am y fethodoleg y tu ôl i'r Rhestr Dadleoli Carbon ac yn ystyried gwerthoedd Dangosydd Dadleoli Carbon diwygiedig yn seiliedig ar y risgiau dadleoli carbon sy'n wynebu diwydiannau'r DU. At hynny, mae'n gwahodd rhanddeiliaid i roi eu barn ynghylch a ddylid mabwysiadu Rhestr Dadleoli Carbon sy'n benodol i'r DU neu gynnal a chadw'r un bresennol. Yn olaf, mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cynigion ac yn gofyn am adborth ar sut y dylid addasu dyraniadau am ddim ar gyfer sectorau a fydd yn ddarostyngedig i CBAM arfaethedig y DU.

Trwy ETS y DU, mae'n rhaid i ni annog datgarboneiddio mewn ffordd nad yw'n rhoi diwydiant Cymru o dan anfantais, ac sy'n cefnogi llwybrau datgarboneiddio'r diwydiant i fyd sero net. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn gam nesaf hanfodol o safbwynt gwella dyraniadau am ddim o fewn ETS y DU, gan sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i'r diwydiannau hynny sydd ei angen fwyaf. Rwy'n disgwyl ysgrifennu eto ynglŷn â chanlyniad yr ymgyngoriadau a'r cynigion polisi pellach yn ystod y misoedd nesaf. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

18 Rhagfyr 2024

Annwyl Llŷr

Rwy'n ysgrifennu ynghylch yr ymrwymiadau a wneuthum yn ystod fy nghyfnod yn y sesiwn graffu gyffredinol ar 27 Tachwedd, a restrir isod er hwylustod.

1. Unedau aerdymheru newydd
2. Targedau Fflyd Trafnidiaeth Cymru (TrC)
3. Taliadau Arian Parod ar Drenau
4. Parcio ar y palmant

Mae'r 3 ymrwymiad cyntaf yn faterion gweithredol i TrC. Rwyf wedi amgáu llythyr at James Price, Prif Swyddog Gweithredol TrC ac wedi gofyn iddo roi atebion manwl i chi am y materion hyn.

Yn ychwanegol at yr wybodaeth a roddais i'r pwyllgor, hoffwn ailadrodd ein bod yn trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd drwy fuddsoddi dros £1bn i ddarparu gwasanaeth troi i fyny a mynd. Fel rhan o'r trawsnewidiad hwn, rwyf wrth fy modd bod TrC bellach yn rhedeg trenau trydan newydd sbon. Mae hon yn foment hanesyddol go iawn ac yn garreg filltir arwyddocaol tuag at ddarparu Metro De Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gyffredinol yn 2024, mae gwasanaethau TrC wedi bod yn fwy dibynadwy na gweithredwyr eraill yng Nghymru. Rydym yn darparu gwasanaethau cyflymach ac amlach diolch i'n buddsoddiad o £800m mewn fflydoedd newydd. Pan fydd yr holl fflyd newydd sbon wedi cyrraedd, bydd 484 o gerbydau ar gael i TrC o'u cymharu â'r 270 o gerbydau a etifeddwyd yn 2018. Mae hyn yn gynnydd enfawr mewn capasiti a fydd o fudd i deithwyr ledled Cymru. Rydym eisoes yn gweld manteision, gyda theithiau teithwyr yn cynyddu 19%, o flwyddyn i flwyddyn, ar wasanaethau TrC ar gyfer y cyfnod diweddaraf. Mae hyn yn dangos effaith gadarnhaol perfformiad gwell gan TrC, sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r trenau newydd a gwelliannau i'r gwasanaeth yn barhaus, gan arwain at fwy o hyder ymhlith teithwyr i ddefnyddio gwasanaethau rheilffyrdd.

Rwy'n disgwyl i'r duedd hon barhau ac o'r newid yn yr amserlen ar 15 Rhagfyr, bydd 60% o holl wasanaethau TrC yn cael eu rhedeg gan drenau newydd, gyda thros dri chwarter y gwasanaethau y tu allan i Linellau Craidd y Cymoedd yn cael eu gweithredu gan y fflydoedd newydd. Mae teithwyr hefyd yn elwa ar yr arloesedd y mae TrC yn ei ddarparu. Mae cyflwyno tocynnau Talu Wrth Fynd bellach wedi'i ymestyn i 95 o orsafoedd ledled De Cymru, gan gynnwys holl linellau'r Cymoedd ac ar lwybrau i Ben-y-bont ar Ogwr, Maesteg a'r Fenni. Mae bellach yn bosibl teithio o'r Pîl i Gas-gwent gyda thocyn Talu wrth Fynd digyswllt ac elwa ar gapio prisiau dyddiol ac wythnosol, gan sicrhau bod teithwyr yn elwa ar y prisiau gorau posibl. TrC yw'r gweithredwr trenau cyntaf y tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr i gyflwyno'r system hon.

Rwyf hefyd wedi bod yn falch o sut mae TrC wedi gwella ei berfformiad wrth reoli effaith digwyddiadau mawr. Gwnaethant gario dros 130,000 o bobl i mewn ac allan o Gaerdydd ym mis Tachwedd eleni ar gyfer Gemau Rhyngwladol yr Hydref, Cynghrair y Cenhedloedd a Gêm Gymhwyso Pencampwriaeth Merched UEFA, gan ddarparu capasiti a gwasanaethau ychwanegol pan oedd yn bosibl iddynt wneud hynny.

O ran parcio ar y palmant, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r mater hwn oherwydd ei effaith sylweddol ar gerddwyr, yn enwedig y rhai ag anableddau, rhieni â chadeiriau gwthio a phobl hŷn. Mae sicrhau bod palmentydd yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Yng Nghymru (fel yn y rhan fwyaf o Loegr ac eithrio Llundain) mae'r rhan fwyaf o droseddau parcio yn destun camau gorfodi sifil, ac mae gan awdurdodau lleol bwerau i weithredu, rheoli a gorfodi cyfyngiadau parcio a wneir gan ddefnyddio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (TRO) o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Gwnaeth Deddf Rheoli Traffig 2004 ddad-droseddoli troseddau parcio, gan ganiatáu i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael pwerau gorfodi sifil. Mae hyn yn golygu y gallant nawr ddefnyddio Swyddogion Gorfodi Sifil i roi Hysbysiadau Tâl Cosb pan fydd tramgwyddau parcio wedi digwydd. Gall y rhai sy'n derbyn Hysbysiad Tâl Cosb apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr y tu allan i Lundain.

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw bwerau gorfodi yn erbyn parcio ar balmentydd, ac eithrio pan fo cyfyngiadau parcio lleol neu os yw'r cerbyd yn Gerbyd Nwyddau Trwm (HGV) dros 7.5t. Caiff awdurdodau lleol wneud Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (TROs) sy'n gwahardd parcio ar y palmant mewn ardaloedd diffiniedig, yn ogystal â nodi drwy ddefnyddio marciau ffyrdd ac arwyddion os oes lleoedd yn y strydoedd hynny lle gellir parcio cerbydau yn rhannol neu'n gyfan gwbl ar y palmant. Gellir defnyddio mesurau ffisegol fel rheiliau neu gafnau plannu i atal cerbydau rhag cael eu gyrru ar balmentydd ond

mae'r rhain yn ychwanegu at annibendod ar y stryd, yn lleihau lled effeithiol y palmant ac yn peryglu pobl â nam ar eu golwg.

Mae gan yr heddlu hefyd bwerau i orfodi yn erbyn cerbydau sy'n rhwystro'r briffordd, sy'n cynnwys y palmant, o dan nifer o statudau a rheoliadau. Fodd bynnag, anaml y defnyddir y pwerau hyn, yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau, ond hefyd oherwydd y baich profi sy'n angenrheidiol i sicrhau euogfarn droseddol am rwystro. O ganlyniad, prin yw'r camau gorfodi yn erbyn parcio ar y palmant sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

Rydym yn cysylltu'n agos â'r Adran Drafnidiaeth (DfT), sy'n archwilio mesurau i fynd i'r afael â rhwystro palmentydd yn ddiangen. Ar hyn o bryd maent yn cynghori eu Gweinidogion ynghylch ffordd ymlaen a byddwn yn ystyried sut y gall hyn helpu Cymru.

Os oes angen unrhyw beth arall arnoch, mae croeso i chi gysylltu.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

James Price

Prif Swyddog Gweithredol
Trafnidiaeth Cymru

18 Rhagfyr 2024

Annywl James

Yn ddiweddar, mynychais sesiwn graffu gyffredinol ar gyfer y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith. Gallwch ddod o hyd i'r trawsgrifiad llawn o'r cyfarfod yn Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith 27/11/2024 - Senedd Cymru.

Yn ystod y sesiwn, codwyd sawl cwestiwn ynghylch materion gweithredol i Trafnidiaeth Cymru a chytunwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ysgrifenedig i'r pwyllgor. Maent yn cynnwys:

- Diweddariad ar unedau aerdymheru newydd: https://record.senedd.wales/Committee/15053#C633352
- Targedau fflyd Trafnidiaeth Cymru: https://record.senedd.wales/Committee/15053#C633454
- Taliadau arian parod ar drenau: https://record.senedd.wales/Committee/15053#C633569

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu'n uniongyrchol at Gadeirydd y pwyllgor, Llyr Huws Gruffydd (SeneddHinsawdd@senedd.cymru), gydag ymatebion manwl o fewn 14 diwrnod i dderbyn y llythyr hwn.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

*Copïwyd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon